PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

Rhifyn digidol | Rhif 431 | Medi 2020




Pennaeth newydd Ysgol Penweddig

t.19




# Newid ddaeth...

Go brin bod yna neb o'r criw bach a fu'n cyfarfod dros gyfnod o fisoedd yn Ysgol Rhydypennau ym 1977 yn syweddoli beth oedd maint a disgwyliadau tymor hir ein cyfrifoldeb i'r cymunedau lleol. Y bwriad oedd creu papur bro i'r ardal ac fe lawnsiwyd *Y Tincer* ym Medi 1977. Roedd y brwdfrydedd a'r ysfa i gychwyn rhywbeth newydd mor fawr a hynny yn ein dallu rhag bob rhwystr ac anhawster.
Yn ffodus doedd dim prinder o dalentau yn yr ardal i gynnal papur. Roedd yna gasgliad o bobol ifainc a hŷn, o ddiddordebau gwahanol ac o gylchoedd amrywiol oedd yn barod i ymgymryd â'r dasg ac fe lwyddywyd i greu a chynnal papur sydd erbyn hyn yn 43 oed ac ymhlith y gorau yng Nghymru.



Mary Thomas ac Elina Davies yn mwynhau trafod cynnwys rhifyn cynta Y Tincer a gyhoeddwyd ym Medi 1977. Mae'r ddwy wedi gweithio yn ddi-dor i gefnogi ein papur bro dros gyfnod o ddeugain mlynedd a mwy.

Roeddem yn griw cymysg ond roedd yna linyn cydiol oedd yn allwedd i'r llwyddiant a gafwyd o'r cychwyn sef gwybodaeth leol drylwyr a gwir ddiddordeb mewn pobol y fro ac roeddem oll yn gefnogol i weledigaeth y papurau bro.

Roedd y dechnoleg o argraffu a chynhyrchu papur a chyfathrebu wedi dechrau newid ond roedd hi'n ddyddiau cynnar iawn. Roedd natur y cymdeithas yn y 70au yn ddigon sefydlog ond roedd yna chwyldro cymunedol wedi cychwyn yn sgîl adeiladu tai ar raddfa afresymol gan newid natur a chymeriad y pentrefi a bygwth diwylliant, Cymreictod a'r ymdeimlad o berthyn oedd yn greiddiol i gymeriad ein cymunedau gwledig.

Ond, fe lwyddodd *Y Tincer* ac roedd yna fyddin o weithwyr a chefnogwyr a doedd yr un Neuadd yn yr ardal yn ddigon mawr i gynnal noson flynyddol Y Tincer.



Adeilad newydd Arloesi Aber yng Ngogerddan - gw hefyd t.12



Cyffordd gorsaf newydd Bow Street

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**

**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**

**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 627916
**GADEIRYDD Y TINCER – Richard Owen**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 820168
**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**YSGRIFENNYDD – Iona Davies**, Y Nyth, Llanilar, Aberystwyth, SY23 4NZ
☎ 01974 241087
ionadavies752@btinternet.com
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cêt Morgan**
Fferm Glanfrêd, Lôn Glanfrêd, Llandre SY24 5BY cetmorgan@yahoo.co.uk 07966 510195]
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
3 Brynmeillion, Bow Street, SY24 5BP
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**TINCER TRWY'R POST –**
**Edryd ac Euros Evans**, 33 Maes Afallen
Bow Street

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Grace Bailey**, Pencarreg, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871462
**Esther Prytherch** ☎ 07968 593078
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

**Rhifyn Medi** Dyddiad cau **Hydref 2**; Dyddiad cyhoeddi **Hydref 21**

**MEDI 19** Dydd Sadwrn Eisteddfod Cwmystwyth GOHIRIWYD

**HYDREF** 16 Nos Wener 'Siarad Trysore – cip tu ôl i'r llen ar hanes hynod Cymru' gyda Sara Huws, Cymdeithas Lenyddol y Garn, am 7.30 o'r gloch; cyfarfod dros Zoom – cysylltwch â'r ysgrifennydd i gael y manylion: marian_hughes@btinternet.com / 01970 828662.

**HYDREF 21** Nos Fercher Cymdeithas y Penrhyn. Manylion i ddilyn.

**HYDREF 24** Nos Sadwrn Cofiwch droi y clociau awr yn ôl.


**TACHWEDD 12** Nos Iau Merched y Wawr Penrhyn-coch yn cyfarfod yn y Clwb Pêl-droed am 7.30

**TACHWEDD 18** Nos Fercher Sgwrs gan Rhuanedd Richards, Pennaeth Radio Cymru Cymdeithas y Penrhyn trwy gyfrwng Zoom am 7.30

**TACHWEDD 20** Nos Wener 'Cwis Hwyliog' dan ofal Ann ac Alan Wynne Jones, Cymdeithas Lenyddol y Garn, am 7.30 o'r gloch; cyfarfod dros Zoom – cysylltwch â'r ysgrifennydd i gael y manylion: marian_hughes@btinternet.com / 01970 828662.

**RHAGFYR 11 Nos Wener** 'Dathlu'r Nadolig' dan ofal Llinos Dafis a Heledd Ann Hall, Cymdeithas Lenyddol y Garn, am 7.30 o'r gloch; cyfarfod dros Zoom – cysylltwch â'r ysgrifennydd i gael y manylion: marian_hughes@btinternet.com / 01970 828662.

# Adloniant teledu a radio



**ANTUR ADRE** cyfres newydd o raglenni 6 hanner awr
Y gyfres yn dechrau ar S4C **nos Iau Medi 24ain am 9pm**.

*Cyfres newydd yn dilyn teuluoedd a ffrindiau gwahanol bob wythnos sydd wedi dewis mynd ar wyliau'n agos i adre eleni. Bydd cyfle i fwynhau ac ail ddarganfod harddwch eu hardaloedd lleol a gweld nad oes angen teithio'n bell i gael gwyliau gwerth chweil.*

Mae sawl un o Geredigion yn ymddangos yn y gyfres;
Y chwaer a'r ddau frawd – **Rhian, Gerwyn ac Eifion Jones o Dal-y-bont.**
**Anest Eirug** - o Bow Street (nawr ym Mhrifysgol Caerdydd)
**Siencyn Jones** o Ystrad Meurig (nawr ym Mhrifysgol Caerdydd)

**AGOR Y CLO** cyfres newydd 3 rhaglen awr
Y gyfres yn cychwyn ar S4C **nos Sul Hydref 25ain**

*Cyfres newydd sbon fydd yn agor y clo ar yr hanesion teuluol a chymdeithasol difyr y tu ol i'r creiriau sy'n llechu yn ein cartrefi a'n cymunedau.*



**CRWYDRO'R CAMBRIA** Dafydd Morris Jones a Ioan Lord
Darlledwyd cyfres 1 ar Radio Cymru ym mis Gorffennaf 2020. Bydd Cyfres 2 yn cael eu recordio yn hwyrach eleni I'w darlledu flwyddyn nesa.

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer Mis Mehefin 2020

**£25** (Rhif 241 ) Owen Watkin, Aberystwyth
**£15** (Rhif 239 ) Ceris Gruffudd, Penrhyn-coch
**£10** (Rhif 139 ) Gruffydd Aled Williams, Dolau

Fe dynnwyd y rhifau buddugol yng nghartref y trefnydd oherwydd y cyfyniadau presennol.

Cofiwch os ydych yn aelod o'r cyfeillion ac yn newid enw neu gyfeiriad plis rhowch gwybod i'r trefnydd Bethan Bebb 01970880228 neu ar ebost m.e.bebb@talk21.com

## 30 MLYNEDD YN OL




Carys Rhys Jones yn ceisio cadw trefn ar ei mab Mark; bu'r ddau yn ymddangos gydol yr haf yn y cynhyrchiad 'Annie' yn Theatr y Werin. Er fod Carys yn hen law ar ynddangos ar lwyfan, dyma oedd ei sioe broffesiynol gyntaf a dyma'r tro cyntaf hefyd i Mark sy'n 13 oed i ymddangos ar lwyfan. Llun: Arvid Parry Jones (o'r Tincer Medi 1990)




**Parhad o dudalen 1**

Y cwestiwn mawr wedyn oedd ein gallu i gynnal y gwaith a'r brwdfrydedd i'r dyfodol, ac fe lwyddwyd eto. Dwy amlwg ymhlith gweithwyr diwyd a ffyddlon *Y Tincer* o'r cychwyn yw Mary Thomas ac Elina Davies Llandre ac wedi degawdau o ymwneud ag elfennau golygyddol, plygu, dosbarthu, casglu newyddion maent wedi penderfynu ymddeol.

Dilyn ei gwŷr i Landre wnaeth y ddwy a dros y degawdau maent wedi bod yn graig i'r gymdeithas ac yn gynheiliaid bywyd cymunedol a Chymraeg Llandre ac yn fawr eu cefnogaeth i Gapel y Garn a Bethlehem, Merched y Wawr, Banc Bro a Threftadaeth Llandre. Gallwn wastad gymryd yn ganiataol wrth drefnu unrhyw weithgaredd y byddai Mary ac Elina yn bresennol. Does dim llawer yn digwydd yn Llandre nad yw Mary ac Elina yn gwybod amdano.

Priododd Elina ag Alun, a'i deulu yntau a fu'n gyfrifol am ofalu am Ysgoldy Bethlehem ers sawl cenhedlaeth. Etifeddodd Alun y cyfrifoldeb wedyn ac ymdaflodd Elina hefyd i'r gwaith o gadw trefn ar Bethlehem gyda'r fath arddeliad hyd nes i'r addoldy bach, yn lleol, fod yn gyfystyr â chapel y Sistine yn Rhufain.

Bu Mary yn athrawes ac wedi priodi Elwyn Croesawdy oedd yn fecanic medrus ac yn rhedeg Garej Rhydypennau (Owen y mab sydd yno nawr) fe wnaeth hi fwrw gwreiddiau dwfn yn yr ardal a defnyddiodd ei diddordeb mewn hanes bro i gasglu gwybodaeth hynod o werthfawr am yr ardal. Roedd ei hymchwilion i mewn i enwau caeau yr ardal yn waith sylweddol a gwerthfawr.

Diolch i'r ddwy am eu gwasanaeth cyson a theyrngar i'r Tincer, am wneud llawer o waith caib a rhaw ac am " … gadw'r fflam yn fyw".

**WMJ**

**GWASANAETH GARDDIO MYNACH**

**Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio**

Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol

**Ffoniwch Meirion:**

07792 457816
01974 261758

e-bost: mynachhandyman@yahoo.com

**Rhoddion**

Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhoddion isod. Croesewir pob cyfraniad boed gan unigolyn, gymdeithas neu gyngor.

Cyngor Genau'r-glyn **£200**
Owen Watkin, Aberystwyth - dychwelodd ei wobr o £25 Cyfeillion y Tincer

### Swyddog Hysbysebion

Croeso i aelod newydd o dîm y Tincer – ymunodd Cêt Morgan fel Swyddog Hysbysebion. Dymunwn yn dda iddi yn y gwaith.

## Cyngor Cymuned Melindwr

Oherwydd yr amgylchiadau nid yw'r Cyngor Cymuned wedi cwrdd yn ol yr arfer. Mae'r clerc yn danfon y wybodaeth i'r Cynghorwyr trwy ebost. Cynhaliwyd Pwyllgor Mehefin a Gorffennaf trwy gyfrwng Zoom.

Derbyniwyd cofnodion cyfarfodydd blaenorol fel rhai cywir. Adroddodd y clerc fod cyfrifion 2019/2020 wedi cael eu harchwilio yn fewnol ac wedi eu danfon I'r archwilydd allanol. Mae'r hysbysiad i'r etholwyr ar safle we Cyngor Cymuned Melindwr.

Mae wedi dod i sylw y Cyngor fod rhai trigolion wedi bod yn taflu gwastraff gardd i'r Afon Melindwr a bod hyn yn gallu niwedio glannau yr afon islaw, a gall hyn achosi llif yn y tymor hir. Gofynnir yn garedig i drigolion Melindwr beidio a pharhau a'r arfer yma.

Mae y Cynghorwyr wedi sylwi fod sbwriel a baw cwn ar gynnydd yn yr ardal. Yng nghyfarfod mis Gorffennaf penderfynwyd i brynu 3 bin oddi wrth Cyngor Ceredigion. Gofynnir yn garedig i drigolion Melindwr i fod yn ddinasyddion cyfrifol a rhoi y sbwriel a'r baw cwn, mewn bagiau priodol, yn y biniau.

Mae un bin ar waelod Stad Pen-llwyn; un arall ger troiad Cwmrheidol a'r trydydd ger troiad Aber-ffrwd.

Diolch i'r Cynghorydd Sir Rhodri Davies am ei gefnogaeth efo'r uchod ac am ei dudalen Facebook Materion Melindwr Matters lle mae yn cynnwys diweddariadau am Covid 19.

Noder fod yna sedd wag ar y Cyngor; os oes rhywun a diddordeb cysylltwch a'r clerc neu un o'r Cynghorwyr am fanylion. Bydd y cyfarfod nesaf yn Mis Medi.

# Y BORTH



**Diwrnod VJ**
Daeth aelodau cangen y Borth o'r Lleng Brydeinig at ei gilydd wrth gofeb rhyfel y pentref ar 15 Awst i nodi 75 mlynedd ers Diwrnod VJ a diwedd yr Ail Ryfel Byd.

**Brysiwch wella**
Dymunwn adferiad iechyd i Margaret Griffiths, Rhydygarreg, a fu yn Ysbyty Bron-glais am gyfnodau yn ystod yr haf. Cofion cynnes atat Margaret.

**Cydymdeimlad**
Estynnwn ein cydymdeimlad gyda Sarah ac Eifion Jenkins a'r teulu, Wileirog, ar farwolaeth mam-gu Sarah yn Llangeitho dros gyfnod yr haf.

Ar Awst 26ain bu farw Owen David Edwards, Fferm Penygraig, ac yntau wedi cyrraedd ei 97 mlwydd oed. Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu i gyd yn eu colled.

**Pen blwydd arbennig**
Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Mrs. Rhiannon Richards, 3 Ffordd Clarach a fu yn dathlu ei phen blwydd yn 70 oed ddechrau mis Medi.

**Ailagor Sinema a Bwyty Libanus 1877**
Bu croeso mawr yn lleol i'r newyddion ddiwedd Awst bod sinema Libanus 1877 yn ail agor, ar ôl bod ynghau drwy gydol y cyfnod clo.

Dangoswyd y ffilm gyntaf ers mis Mawrth ar nos Fercher 26 Awst, gyda mesurau arbennig yn eu lle yn unol â chanllawiau Covid-19.

Er mwyn cadw pellter rhwng pobl, lle i 30 sydd yn y sinema yn hytrach na'r 60 arferol, mae hylif di-heintio ar gael wrth bob mynedfa ac mae gwisgo gorchudd wyneb yn ddewisol.


Ar hyn o bryd, mae ffilmiau'n cael eu dangos bob noson o'r wythnos am 7.30yh gyda dangosiadau ychwanegol am 2.20yp ar ddydd Sadwrn a dydd Sul. Mae'r manylion diweddaraf i'w cael ar wefan Libanus neu ar eu tudalen Facebook.

Mae'r perchnogion Peter Fleming a Grug Morris hefyd wedi cyhoeddi eu bod yn ailagor y bwyty, sydd wedi bod ynghau ers mis Mawrth 2020.

Bydd drysau'r bwyty ar agor cyn diwedd mis Medi o 5.30yh tan 8.30yh nos Fawrth i nos Sadwrn, ac amser cinio dydd Sul. Mae'r gofod wedi'i drefnu'n ofalus i gydymffurfio â'r canllawiau priodol.

Os am gadw lle yn y bwyty neu brynu tocyn sinema, gellid ffonio 01970 871042 neu anfon neges ar Facebook www.facebook.com/libanus1877.

Dymunwn pob hwyl a llwyddiant i Peter, Grug a'u staff yn y cyfnod hwn.




**Chalkfest 2020**
**Adroddiad Carol Bainbridge, Cadeirydd Carnifal y Borth**
Nid oedd modd cynnal rhaglen arferol carnifal y Borth ym mis Awst eleni ond fe lwyddodd y pwyllgor i barhau i gasglu arian at achosion da a threfnu ambell ddigwyddiad, yn cynnwys gŵyl liwgar Chalkfest ac fe gafwyd penwythnos arbennig iawn. Hon oedd ein trydydd Gŵyl Chalkfest, sy'n cael ei rhedeg a'i hysbrydoli gan Dean Tweedy, o Deyrnas Anifeiliaid Gwyllt y Borth. Mae'n rhoi cyfle i artistiaid proffesiynol, amaturiaid a phlant ddangos eu creadigrwydd. Nid oedd prinder ymgeiswyr eleni ac roedd digon o greadigrwydd. Trefnwyd y digwyddiad cyfan i sicrhau bod mesurau pellter cymdeithasol yn cael eu parchu, ond roedd yn dal i olygu llawer o hwyl. Trawsnewidiwyd wal promenâd y Borth gydag enfysau, anifeiliaid gwyllt a chreaduriaid gwych. Efallai na chawsom orymdaith carnifal eleni ond rydym dal wedi gallu mwynhau a dathlu'r carnifal gyda chylchgrawn hyfryd, rhai digwyddiadau difyr, tudalen 'Just Giving' a ras hwyaid hwyliog. Gobeithio y byddwn yn gallu cefnogi rhai grwpiau lleol eleni, os nad cymaint ag arfer. Diolch bob amser i bawb sydd wedi ein cefnogi.

**Sŵ y Borth**
Mae sŵ wedi cau am gyfnod wrth i'r perchnogion chwilio am gartref dros dro i'w cathod mawr.

Mewn datganiad ar wefan Borth Wild Animal Kingdom, dywed y perchnogion Dean a Tracey Tweedie eu bod yn cau am yr wythnosau nesaf wrth iddyn nhw wneud rhai addasiadau ar y safle.

Dywed y datganiad: "Fel y gŵyr rhai ohonoch, rydym wedi cael ychydig o drafferth i gwrdd â'n gofynion drylliau eleni. Mae hyn wedi cael ei achosi i raddau gan newid personél ym mis Ionawr 2020, ac yna nid oedd staff newydd yn gallu cwblhau eu hyfforddiant wrth i'r lleiniau hyfforddi tanio gau, ynghyd â gweddill y byd am lawer o 2020. O'r herwydd, torrwyd un o'r amodau a roddwyd arnom gan y cyngor, ac fe wnaethant gyflwyno rhybudd cau arnom, y buom yn ei herio yn y llys ar 8 Medi.

"Fe allen nhw fod wedi ein cau ni i lawr yn llwyr, ond fe wnaethon ni lwyddo i ddod i gyfaddawd. Yn anffodus bydd yn rhaid ffarwelio â›n cathod am gyfnod byr. Bydd yn rhaid symud ein llewod, ein lyncs a'n serfal i gyfleusterau eraill yn ystod yr wythnosau nesaf."



**Un o'r Borth**
Ers rhai blynyddoedd, pan fydd angen llun gan S4C i'r Tincer, cawn wasanaeth effeithiol a phrydlon gan eu Swyddog Lluniau Llonydd – Mabon Llŷr. Dros yr haf sylweddolodd y Golygydd mai Mabon Llŷr Hincks o'r Borth sy'n cynorthwyo.

Mae Mabon yn byw yng Nghaerfyrddin gyda'i bartner Zuriñe Madrid Barbero (o Wlad y Basg mae hi), a'u cath Mela o Dregaron . Mae yn y swydd ers pedair blynedd. Arferai y teulu dderbyn y Tincer ac mae'n cofio ennill cystadleuaeth Tasg y Tincer pan yn 6 oed – dyma fe a'r llyfr [heddiw!]




Aiff y datganiad yn ei flaen i ddweud eu bod yn hyderus caiff y cathod eu hail-gartrefu dros dro ac y byddant yn agor i'r cyhoedd unwaith eto. Maen nhw'n gobeithio y bydd modd ad-ennill eu trwydded lawn fis Chwefror nesaf pan fyddan nhw'n gwenud eu cais blynyddol i'r Cyngor. Wrth ddiolch i'r gymuned leol am eu cefnogaeth, mae'r perchnogion yn gofyn i bobl ymweld a'r lle dros y gaeaf gan ddweud iddi fod yn flwyddyn anodd iawn iddyn nhw.

**Cwtiaid Ynys-las**
Bu cynllun Cyfoeth Naturiol Cymru i warchod safle nythu'r cwtiaid torchog ar dwyni tywod Ynys-las yn llwyddiannus unwaith eto eleni.

Dywed Canolfan Ymwelwyr Dyfi Ynys-las bod 9 cyw wedi hedfan erbyn diwedd y tymor nyth – y rhif uchaf ers blynyddoedd – ac maen nhw'n diolch I'r cyhoedd am gadw draw o'r safle yn ystod y tymor.

Bydd y ffens o gwmpas y safle yn cael ei dynnu yn fuan er mwyn caniatáu mynediad yn ôl i'r rhan hon o'r traeth sy'n wynebu Aberdyfi.

**Gwaredu Bomiau**
Cafodd yr uned gwaredu bomiau ei galw o Swydd Henffordd i Ynys-las ddiwedd Awst i ffrwydro ordnans arall o'r Ail Ryfel Byd a ganfuwyd ar y traeth.

Os ydyn nhw'n gweld ordnans amheus ar y traeth, mae Canolfan Ymwelwyr Dyfi Ynys-las yn gofyn i'r cyhoedd atal rhag ei gyffwrdd ac i ffonio 999, gan ofyn am wylwyr y glannau a rhoi eu lleoliad.



ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
TEGWYN LEWIS
01970 880627

*Crefftau Pennau*
*Coffi Boreuol*
*Byrbrydau Poeth neu Oer*
*Cinio*
*Te Prynhawn*
*Crefftau Ac Anrhegion*
*Ar agor Llun-Sadwrn*
Brecwast ar gael
01970 820 050
Pennau

RHYD-Y-PENNAU
COGINIO CARTREF
CHWARAEON BYW . COFFI
01970 867 888

SIOP Y PETHE
Llyfrau, Cardiau Cyfarch a Cherddoriaeth a llond llawr o Grefftau ac Anrhegion
01970 617120
Nawr yn cynnig gwasanaeth Cliciwch a Casglwch ar ein gwefan
www.siopypethe.cymru



# BOW STREET

**Ymddeoliad Elaine Evans, Cartref Tregerddan**

Ar ddiwedd mis Gorffennaf ymddeolodd Mrs Elaine Evans o'i chyfrifoldebau fel Metron Cartref Tregerddan, Bow Street. Dechreuodd ei gyrfa yng Nghartref Bodlondeb, Penparcau yn 1978 cyn ei phenodi'n Ddirprwy yng Nghartref Tregerddan yn 1998, ac fel Metron flwyddyn yn ddiweddarach.

Bu'r gymuned yn ffodus iawn cael rhywun mor ofalgar yng ngofal y Cartref lleol, ac roedd y trigolion a'u teuluoedd yn gwerthfawrogi'r holl gariad a gofal a roddodd iddynt. Yn ogystal bu'n llawn syniadau wrth helpu Ffrindiau Cartref Tregerddan godi arian a hefyd, ei ddefnyddio er lles y trigolion.

Rhaid estyn gair o werthfawrogiad hefyd i Aneurin, gŵr Elaine, oedd yn fwy na pharod i helpu yn enwedig gyda'r barbeciw blynyddol.

Ar ôl cymaint o flynyddoedd o wasanaeth rhagorol, mae hi bellach wedi penderfynu newid ei rôl o ofalu am bobl hŷn i helpu i edrych ar ôl ei hwyrion ifanc.



**Geni wyres**

Llongyfarchiadau i Dewi a Nerys Hughes – gynt o – ar ddod yn daid a nain – ganwyd merch fach – Isabel Cari – i Jennifer a Tom McGlynn ddiwedd Gorffennaf ym Meisgyn.

**Pen blwydd arbennig**

Dymuniadau gorau i Linda Edwards, Maes y Garn, ddathlodd ben blwydd arbennig dros yr haf.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Guto ac Adriana Hunkin ar enedigaeth mab – Sam – ddechrau Gorffennaf; ŵyr i Gwyneth a Malcolm Hunkin.

**Gofalaeth Y Garn**

Yn ystod y cyfnod clo diweddar bu capeli Gofalaeth y Garn, dan arweiniad y Parch. Ddr. R. Watcyn James, yn cynnal gwasanaethau rheolaidd bob dydd Sul drwy gyfrwng 'Zoom', gwasanaethau y ceid mynediad iddynt hefyd ar y ffôn, a thrwy 'You Tube' a 'Facebook'. Cafodd yr aelodau hefyd gyfle i fwynhau sesiynau difyr 'Paned a Chlonc' bob dydd Mercher, a roddodd gyfle iddynt gymdeithasu'n rhithiol â'i' gilydd.

Yn sgil llacio cyfyngiadau Llywodraeth Cymru penderfynodd Swyddogion yr Ofalaeth, ar ôl ymgynghori drwy holiaduron â'r aelodau, na chynhelir gwasanaethau yn y capeli yn ystod mis Medi. Ond ar Sul 4 Hydref fe gynhelir Gwasnaeth i'r Ofalaeth yng Nghapel y Garn a fydd yn agored i'r aelodau sy'n dymuno mynychu. Cynhelir y gwasanaeth mewn modd a fydd yn cydymffurfio â chanllawiau'r enwad a Llywodraeth Cymru er mwyn diogelu'r gynulleidfa. Bwriedir hysbysu'r aelodau ymhellach ynghylch y gwasanaeth hwn—gan gynnwys nodi'r amodau perthnasol—yn nghylchgrawn yr Ofalaeth, *Gair o'r Garn*, a gyhoeddir cyn diwedd Medi, ac fe ddosberthir gwybodaeth i'r aelodau amdano hefyd gan Ysgrifenyddion yr eglwysi. Gan fod rheolau'r Llywodraeth yn mynnu bod angen cadw cofnod o'r rhai a fydd yn bresennol, bydd angen i aelodau sydd am fynychu'r gwasanaeth hysbysu Ysgrifennydd eu heglwys unigol o flaen llaw. Bydd y gwasanaeth dan arweiniad y Gweinidog, y Parch. Ddr. R. Watcyn James. Bydd y gwasanaethau 'Zoom' yn parhau am 9.30 bob bore Sul yn ystod y misoedd nesaf.



**Oedfa awyr agored**

Ar ddiwedd y cyfnod clo cynhaliodd Capel Noddfa Wasanaeth y Cymun yn yr awyr agored dan ofal Richard Lewis. Tybed pryd y cynhaliodd yr Annibynwyr wasanaeth awyr agored yn yr ardal ddiwethaf?

**Cydymdeimlad**

Estynnwn ein cydymdeimlad â Wyn Lewis a'r teulu, 14 Carregwen, ar golli ei fam.

**Graddio**

Llongyfarchiadau mawr iawn i Ffion Wyn Roberts, 10 Carreg-wen, ar ennill gradd dosbarth cyntaf mewn Gwyddorau Chwaraeon ac Ymarfer o Brifysgol Met Caerdydd. Pob dymuniad da iddi wrth gychwyn ar ei chwrs ymarfer dysgu (uwchradd) ym Mangor y tymor hwn.




**Merched y Wawr Rhydypennau**

Wedi cryn bwyso a mesur ac ymgynghori ag aelodau o'r Pwyllgor y mae'r Swyddogion wedi penferfynu na fydd y Gangen yn cyfarfod tan o leiaf ddechrau 2021. Byddwn yn adolygu'r sefyllfa ddechrau mis Ionawr. Yn y cyfamser y mae'r rhifyn cyfredol o Y Wawr wedi cael ei ddosbarthu i bawb oedd yn aelod y llynedd ac anogir pawb sydd am barhau yn aelod i anfon tanysgrifiad o £18 i'r Drysoryddes, Mrs Meinir Roberts cyn gynted ag sydd bosibl yn ôl fel a nodir yn y nodyn a ddaeth gyda'r *Wawr*.

**Gair o'r Garn**

Bydd y rhifyn nesaf o *Gair o'r Garn*, sef rhifyn Hydref 2020, yn cael ei gyhoeddi ar wefan Capel y Garn (www.capelygarn.org) cyn diwedd mis Medi. Bydd nifer cyfyngedig o gopïau print ar gael, ac os hoffech gael copi, cysylltwch â'r golygydd: marian_hughes@btinternet.com / 01970 828662.

**Pen blwydd hapus**

Pen blwydd hapus i Dinah Henley, Bryn Castell, a Gwen Cole, Pen-y-garn, ddathlodd ben blwyddi arbennig ym mis Mehefin

**Brysiwch wella**
Gobeithio fod Brenda Jones, Y Lôn Groes, yn gwella ar ôl iddi syrthio a thorri ei braich ddechrau'r haf.

**Priodas Ruddem**
Llongyfarchiadau i Marian a Iestyn Hughes, Maes y Garn, ddathlodd eu priodas ruddem ganol Awst.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Paul Jackson, Pen-y-garn, sydd wedi colli ei nain yng Nghlynnog yn ystod mis Awst.

Ac â Tom Corfield, Maes Ceiro, sydd wedi colli ei frawd ym Mhenrhyn-coch.

**Pen blwydd arbennig**
Dymuniadau gorau i Lis Lloyd Jones, Maes Ceiro, fydd yn dathlu pen blwydd arbennig ddechrau mis Hydref.

**Ymweliad â Hepsibah Llun: Vaughan Griffiths**
Aeth aelodau Capel Noddfa am dro i chwilio am wreiddiau'r achos ar gychwyn Medi. Gyda chaniatâd caredig John Edwards Jones Tŷ'r Abbi ymwelodd yr aelodau â chapel Hepsibah Clarach sef capel cyntaf yr annibynwyr yn yr ardal. Trefnwyd yr achlysur gan Richard Lewis a rhoddodd Richard amlinelliad o hanes sefydlu'r achos yn 1837 dan ddylanwad Azariah Shadrach hyd ei gau yn 1950. Yn dilyn cafwyd atgofion o ddyddiau olaf y capel gan Iwan Davies a Mair Evans ac edrychwyd ar y gofrestr o'r fynwent a pharatowyd gan Peter Henley. Claddwyd y person cyntaf yn y fynwent yn 1848 a'r olaf yn 1968.



**Her y Piod Haf 2020**
Llongyfarchiadau enfawr i Glwb Pêl-droed Piod Bow Street ar gwblhau her a hanner dros y cyfnod clo. Fe wnaeth dros 100 o bobl o bob oed o'r gymuned leol seiclo, rhedeg a cherdded dros 41,000 o filltiroedd, a hynny mewn 70 diwrnod. Y prif nod oedd codi arian i'r clwb, gan nad oedd modd cynnal y twrnament arferol eleni, ond codwyd arian hefyd i ddwy elusen leol, sef HAVAV Aberystwyth ac Elusennau Covid Bwrdd Iechyd Hywel Dda. Codwyd dros £4,500 – gwych iawn! Nododd Wyn Lewis, cadeirydd y Piod, fod y clwb yn falch dros ben o bawb – o bob oedran – fu'n cymryd rhan. Bu'r profiad yn un llawn hwyl wrth i'r gymuned ddod at ei gilydd i gyflawni'r her ar adeg ddigon anodd. Dymuna Wyn ddiolch o waelod calon i bawb am fod mor hael.

Mae'r ardal yn edrych ymlaen at y tymor newydd yn fawr, a phob lwc i dimau'r Piod i gyd.








**Cymdeithas Lenyddol y Garn**
Rydym yn edrych ymlaen at dymor newydd y Gymdeithas Lenyddol ac mae rhaglen amrywiol wedi'i threfnu ar gyfer y misoedd i ddod. Oherwydd y sefyllfa ar hyn o bryd, bydd y cyfarfodydd (tan y Nadolig o leiaf) yn cael eu cynnal dros Zoom, am 7.30 o'r gloch.

Bydd y noson agoriadol nos Wener, 16 Hydref, pan geir sgwrs gan Sara Huws, Caerdydd, ar y testun: 'Siarad Trysore – cip tu ôl i'r llen ar hanes hynod Cymru'.

Ar 20 Tachwedd, cawn fwynhau 'Cwis Hwyliog' dan ofal Ann ac Alan Wynne Jones – noson o gwestiynau ysgafn ac amrywiol. Yna, nos Wener, 11 Rhagfyr, bydd y cyfarfod yn cynnwys darlleniadau ac eitemau cerddorol yn naws y Nadolig, dan ofal Llinos Dafis a Heledd Ann Hall.

Mae croeso cynnes i unrhyw un ymuno â ni – o bell ac agos, yn ddiogel o glydwch eich aelwydydd – drwy gyfrwng Zoom neu drwy wrando ar y ffôn. Am fanylion pellach, cysylltwch â Marian B Hughes (marian_hughes@btinternet.com; 01970 828662).



Bu Carwyn Lloyd Jones yn brysur yn ddiweddar – gyda Mandy Watkins a Gwyn Eiddior bu iddynt dderbyn yr her o adnewyddu lle bach yn ddihangfa fawr – roedd tair rhaglen lle cynlluniwyd lle bach i chwarae, gwrthrych ar olwynion a lle bach dal dwr. Tri dawnus iawn a syniadau amrywiol ganddynt. Llun: S4C

# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

**Dyweddiad**
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Aled Lewis a Cerys Humphreys, ar eu dyweddiad yn ddiweddar.

**Arholiadau a Choleg**
Llongyfarchiadau i Alaw Evans, Pwllcenawon gafodd ragoriaeth driphlyg yn ei chwrs yng Ngholeg Ceredigion a sydd ar y ffordd i'r Brifysgol ym Mhontypridd.

Dymuniadau gorau hefyd i Llyr Evans, Pwllcenawon, fydd yn mynd i Goleg Llysfasi, Rhuthun; Haf Evans, Rhiwarthen Isaf, sydd yn gwneud cwrs gradd mewn nyrsio ym Mhrifysgol Abertawe ac Aaron Bull Karalfen. Mae Kate Williams yn dychwelyd i'r ail flwyddyn, wedi cael blwyddyn allan i deithio. ac Amy Dryburgh yn mynd yn ol i wneud ei  gradd Meistr. Cadwch i gyd yn saff ac yn iach.

**Pen blwyddi arbennig**
Llongyfarchiadau calonnog i Haf Evans, Rhiwarthen Isaf a ddathlodd ei phen blwydd yn ddeunaw oed ym mis Gorffennaf ac hefyd i Mr. Eilir Morris, Glennydd a gyrhaeddodd garreg filltir go arbennig yn 90 oed ym mis Awst. Llongyfarchwn Mrs. Anne Davies, Maencrannog, Mrs. Maggie Jones sydd yng nghartref Abermad ar hyn o bryd, a Mrs. Iris Richards, Brodawel yn ogystal, eu tair wedi dathlu cerrig milltir go arbennig, a dymunwn bob rhwyddineb a bendith i chi oll i'r dyfodol.

**Newid Aelwyd**
Croeso cynnes i Jonathan ac Angharad Lewis ynghyd a Morgan, Iestyn ac Ela i'w cartref newydd yn Llwyndafydd. Nid oedd ganddynt ffordd bell i symud o Tanffordd ond wedi llawer o waith caled mae eu breuddwyd wedi ei chyflawni a dymunwn bob llawenydd iddynt fel teulu, ac i'r tri pysgodyn aur a ymunodd â hwy yn ddiweddar.

**Cyn athrawes yn Ysgol Pen-llwyn**
Bydd y sawl a fu'n ddisgyblion yn Ysgol Pen-llwyn ar ddechrau'r chwedegau yn cofio am Mrs Mairlynne Davies a fu'n athrawes yn yr ysgol am ychydig flynyddoedd. Trist oedd clywed y newyddion am ei marwolaeth ar Fai 7fed a hithau'n 83 oed. Un o Frynaman oedd Mrs Davies a chafodd ei haddysg yn Ysgol Gynradd Brynaman ac Ysgol Ramadeg Rhydaman, cyn graddio yn y Gymraeg o Brifysgol Abertawe. Yn dilyn cyfnodau'n dysgu mewn ysgolion cynradd, bu Mrs Davies yn athrawes yn Ysgol Bro Ddyfi, Machynlleth, lle bu ei gŵr, John, yn ddirprwy Bennaeth am flynyddoedd lawer. Roedd yn berson hawddgar a dymunol a gyfrannodd yn fawr i'w chymuned a hynny er gwaethaf heriau iechyd. Cafodd drawsblaniad aren ym 1986. Ymysg y mudiadau niferus y cyfrannodd yn sylweddol atynt yn ardal Machynlleth roedd Capel y Graig, Merched y Wawr, papur bro *Y Blewyn Glas* a Chylch Llenyddol Machynlleth. Cydymdeimlwn â'i gweddw John a'u mab Huw yn eu profedigaeth.

**Richard Ieuan Felix**
Er nad oedd yn ymwelydd cyson â Phen-llwyn, nid oes amheuaeth nad oedd y pentref a'r ardal yn agos iawn at galon Richard Ieuan Felix. Ei fwriad oedd ymweld â'r pentref yn ystod yr haf hwn, ond yn anffodus ni allodd wireddu ei ddyhead. Ac yntau'n 98 oed, bu farw Ieuan Felix ar 15 Ebrill, 2020. Fe'i ganwyd yn 'Hafod' ar lannau'r Afon Melindwr ym mis Tachwedd 1921. Mynychodd Ysgol Pen-llwyn ac Ysgol Ramadeg Ardwyn, cyn dechrau gweithio fel prentis fferyllydd yn siop Boots, Aberystwyth. Gadawodd yr ardal a mynd i Lundain i astudio fferylliaeth a Chemeg a threuliodd ei fywyd yn gweithio yn y diwydiant fferyllol. Mae'r pandemig diweddar wedi peri i ni sylweddoli cymaint yr ydym yn ddibynnol ar feddyginiaeth yn ein brwydr yn erbyn heintiau. Mae'r rhan fwyaf ohonom yn rhy ifanc i gofio amser pan nad oedd gwrthfiotig, ond rydym yn ymwybodol o bwysigrwydd darganfod penisilin. Chwaraeodd Ieuan Felix ran bwysig yn y gwaith hwnnw. Dechreuodd ar ei yrfa yn rhan o dîm o fferyllwyr i gwmni Allen and Hanbury yn Ware, Swydd Hertford. Tasg y gweithwyr yn y ffatri honno ym 1944 oedd cynhyrchu penisilin ar gyfer gwasanaethau meddygol y lluoedd arfog. Roedd adnoddau'n brin ac felly rhaid oedd bod yn greadigol. Gan fod llestri gwydr Pyrex yn ddrud a bod eu hangen hefyd ar gyfer defnydd arall yn ystod y rhyfel, rhaid oedd i'r tîm yn Ware ddefnyddio poteli llaeth i dyfu penisilin. Llwyddai'r tîm i lenwi tua mil o boteli'r dydd â'r tyfiant cyn i'r tyfiant hwnnw wynebu triniaeth fanwl a chymhleth ar gyfer creu'r feddyginiaeth werthfawr. Roedd yn waith llafurus a gâi ei wneud â llaw a'r canlyniad oedd bod cwmnïau fel Glaxo ac eraill wedi llwyddo i ddod o hyd i ffordd fwy effeithlon o gynhyrchu penisilin a chanslodd Harold Wilson gytundeb Allen and Hanbury. Er i'r gwaith hwnnw ddod i ben, parhau wnaeth ymwneud Mr Felix â fferylliaeth a threuliodd ei oes yn y maes hwnnw, gan ddod yn un o Gymrodorion y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol. Treuliodd flynyddoedd yng Nghanolbarth Lloegr, gan dreulio ei flynyddoedd olaf yn Heswall, Wirral (rhwng Caer a Phenbedw - Birkenhead). Roedd yn hanesydd brwd ac ysgrifennodd nifer o erthyglau hynod ddiddorol ar gyfer Cymdeithas Hanes Teulu Ceredigion, gan gynnwys erthyglau ar y modd y cyflwynwyd trydan a phrif gyflenwad dŵr i bentref Pen-llwyn. Ddechrau 2020 cafwyd erthygl gynhwysfawr ganddo ar hanes siop yr Exchange. Er iddo golli cysylltiad â'r pentref pan fu farw ei rieni, flynyddoedd yn ôl, ac er iddo fod yn Lloegr am dros 70 o flynyddoedd, roedd yn dal yn falch o'i Gymreictod a'i ardal, gan ysgrifennu e-byst at gydnabod yng Nghymru mewn Cymraeg cyhyrog.

**Ysgol newydd**
Mae amryw ohonoch yn newid ysgol. Pob lwc a dymuniadau da i chithau hefyd.



Diwrnod newydd, gwisg newydd ysgol newydd.

# CLARACH / LLANGORWEN

**Codi dros £8,000**
Mae merch ysgol 10 oed o Glarach – disgybl yn Ysgol Comins-coch - wedi cwblhau her i redeg milltir bob dydd ers cychwyn y cyfnod clo, gan godi dros £8,000 i elusen iechyd.


Yn ôl ym mis Mawrth fe benderfynodd Alysha Scarrott o Glarach ei bod hi am godi arian ar gyfer y gwasanaethau iechyd lleol. Yn ddyddiol rhwng hynny a 20 Mehefin - cyfanswm o 65 diwrnod - rhedodd dros filltir ar ffordd y tu allan i'w chartref. Daeth dros 30 o gyfeillion ac aelodau o'r teulu i gadw cwmni iddi wrth iddi redeg ei milltir olaf ddydd Sadwrn 20 Mehefin.

**Dathlu canrif**
Llongyfarchiadau i Mrs Glenys Jones, Plas Cwmcynfelin (gynt o Pistyll Tegan a Tanyfoel, Clarach) ar ddathlu ei phen blwydd yn 100 oed ar 23 Awst. Dymunwn yn dda iddi.

# Adolygiad

Daniel Davies *Ceiliog Dandi.* Gwasg Carreg Gwalch £8.00 214t.

“Gadewch i mi gyflwyno fy hun” medd Dafydd ap Gwilym wrth ein gwahodd i fynd gydag ef ar daith ar “fore awyr las o wanwyn ym mis Mai 1345...” ac yntau yn sefyll ar Fanc y Warren, ryw filltir o dref Aberteifi. A dyna osod y dyddiad a’r lleoliad.




Ar ôl tipyn o drafferth yn nhafarn y Llew Du mae Dafydd a Wil, ei was ffyddlon ac awdur ei farddoniaeth, yn mynd o’r naill sefyllfa wyllt i’r llall yng nghwmni beirdd brith meigis Iolo Goch a Madog Benfras, yr awgrymir, drwy luniau celfydd Ruth Jên, eu bod yn haeddu teitlau megis Celwyddfeirdd, Llofruddfeirdd, Ewrofeirdd, Gwallgofeirdd, Rhyfelfeirdd, Odlfeirdd, ac wrth chwilio am Namnun ynghanol y Rhyfel Can Mlynedd yn Ffrainc daw’r anrhydedd annisgwyl o gyfarfod â’r crwt ifanc Owain Lawgoch i’w rhan.

Os oeddech chi’n teimlo bod y frawddeg uchod yn rhy hir a chymhleth, dyna sut roeddwn innau’n teimlo ar adegau wrth ddechrau ar Ceiliog Dandi. Bu’r stori braidd yn araf yn gafael ynof i ac mi deimlais i’r afledneisrwydd yn fwrn ar adegau. Pan afaelodd hi, fodd bynnag, aeth rhagddi a thynnu gwên a chwerthin wrth i fi edmygu cysondeb y cymeriadu a deheurwydd y datblygu. Mae hi’n werth dal ati i gyrraedd y llif dawnus doniol a mwynhau’r dilyniant byrlymus o sefyllfaoedd nwyfus, nwydus, traflyncus a thraserchus sy’n goferu o eiriau mwys a sylwadau amwys.

Mae’n gyforiog o gyfeiriadau hanesyddol, rhai ohonyn nhw’n agoriad llygad efalle – oedd hi wir yn arferiad i ladron pen-ffordd weiddi “Talu neu Sbaddu” cyn ymosod ar eu prae? Mae yma hefyd gyfatebiaethau rhwng y stori a hanes mwy diweddar sy’n ogleisiol adleisiol, - a fu rhyw drafferth am enillydd Cadair Aberteifi? Pam mae enwau’r criwyr tref yn taro tant? Mae’n bosibl bod eraill nad own i’n ddigon effro i’w hadnabod am fy mod wedi ymgolli yn y stori. Wrth gwrs mae ein cysylltiad gwleidyddol ag Ewrop yn codi ei ben fwy nag unwaith rhwng y rhyfel a’r talwrn; mae yma hefyd gyfeiriad at haint beryglus.

Mae Daniel Davies wedi profi ei allu i greu plot cymhleth gyda nifer fawr o gymeriadau mewn nofelau blaenorol, mae hynny’n cael ei gadarnhau unwaith eto yma.

Un cwestiwn sydd gennyf. Ai rhwng cloriau llyfr yw’r lle gorau i’r romp afieithus yma? Rwy’n tybied bod yna gynulleidfa a fyddai wrth eu bodd gyda’r straeon a’r cymeriadau ond na fyddai, efalle, yn eu canfod rhwng clawr llyfr. Fyddai hi’n bosib eu hanimeiddio gan ddefnyddio cartwnau gwych Ruth Jên a thrwy hynny beri i’r storiau – mae digon ohonyn nhw i wneud cyfres sylweddol - a’r cymeriadau ddod yn rhan o lên gwerin y cenedlaethau digidol?

**Llinos Dafis**

# LLANDRE

**Priodas ddiamwnt**
Dymunwn yn dda i Erddyn a Gwenda James, Taigwynion, ar ddathlu eu priodas ddiamwnt. Llongyfarchiadau mawr iddynt eu dau.

**Gwella**
Gobeithio fod Tom Hughes, Pantyperan gynt, yn gwella ar ôl bod yn Ysbytai Bron-glais a Threforus yn ystod yr haf.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn a Gwenda James, Tremedd, ar golli ei mam yn Sir Fon ym mis Awst

**Urddo**
Llongyfarchiadau i Wynne Melville Jones ar gael ei urddo i’r Orsedd yn Nhregaron flwyddyn nesa.

**Cwmni Atebol**
Llongyfarchiadau i gwmni Atebol ar ennill – Llyfr y Flwyddyn. **Enillydd Categori Plant a Phobl Ifanc Llyfr y Flwyddyn: Elidir Jones Yr Horwth**

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Carys a Garwyn, Brynllys, ar farwolaeth mam Carys yn Hafan y Waun.



Nans Morgan yn dathlu pen blwydd gyda’r teulu ar y lawnt yn Nolgwiail

**SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH**
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a’r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
01970 828312

**GWASANAETH CYFIEITHU**
Linda Griffiths
Maesmeurig
Pen-bont
Rhydybeddau
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ

01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

**R.J.Edwards**
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i’w llogi
Cyflenwi cerrig mán
01970 820149
07980 687475

**Eirian Reynolds, Tech. S.P.**
GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH
Arolygon Diogelwch
Asesiadau Peryglon
Archwiliadau Damweiniau
Hyfforddiant
01970 820124
07709 505741

Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol


# DOLAU

**Cydymdeimlad**
Cymdeimlwn â Rhian, Ffion a Sion Nelmes, Dolau Gwyn, Tre'r-ddôl ar farwolaeth Martin, a fu farw ym Mehefin. Cydymdeimlwn hefyd ag Ifor a Margaret Mason, Bryngwyn Mawr, Dolau ar golli eu mab-yng-nghyfraith.

**Ymweliadau Ysbyty**
Anfonwn ein cofion at yr Arglwydd Elystan Morgan fu mewn ag allan o'r Ysbyty yn ddiweddar; hefyd at Ifor Mason, Bryngwyn Mawr, yn ysbyty Bron-glais yn ystod mis Awst. Da deall ei fod adre ac yn gwella erbyn hyn.

**Cyflwyno cyfrol**
Ym mis Gorffennaf cyhoeddwyd cyfrol o saith ysgrif gan ysgolheigion blaenllaw i gyfarch yr Athro Emeritws Howard Williams – gynt o'r Dolau.

Mae un o'r erthyglau gan Huw Lloyd Williams – mab yr Athro Williams sydd yn uwch-ddarlithydd ym Mhrifysgol Caerdydd ac sydd yn flaenllawgyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.




E. Gwynn Matthews *Rheswm a rhyddid: cyfrol i gyfarch Howard Williams* (Astudiaethau Athronyddol 8) 144t. £7.99. Y Lolfa

Cyflwynir y gyfrol gan aelodau Adran Athronyddol Cymdeithas Cyn-fyfyrwyr Prifysgol Cymru i'r Athro Emeritws Howard Williams fel arwydd o'u gwerthfawrogiad o'i gyfraniad sylweddol i athroniaeth wleidyddol ar raddfa ryngwladol ac i athronyddu yn Gymraeg yn arbennig.

Dyma'r wythfed gyfrol yn y gyfres 'Astudiaethau Athronyddol', cyfres sydd yn trafod themâu gwleidyddol a chymdeithasol o safbwynt nifer o athronwyr. Mae'r gyfres wedi apelio nid yn unig at athronwyr ond at bawb sydd â diddordeb mewn trafod syniadau.

**O dalaith i dalaith**
Dymuniadau gorau yn ei gartref newydd yn Portland, Oregon i Aled Hughes – gynt o'r Dolau – sydd wedi symud yno o Colorado, UDA. Gobeithio nad yw y tanau yn effeithio gormod ar ei ardal newydd.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Jonathan ac Elen a'u teuluoedd ar farwolaeth y Parchedig Ddr Elfed ap Nefydd Roberts fu farw ganol Awst.

# ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

**Pen blwydd arbennig**
Pen blwydd hapus i Beti Daniel ddathlodd ben blwydd arbennig ym Mis Gorffennaf. (Gol.)

**Ymddeoliad**
Dymuniadau gorau i Sian Morris, Neuadd Parc, ar ei hymddeoliad ers rhai misoedd erbyn hyn. Bu Sian yn ddeintydd uchel ei pharch yn Aberystwyth am nifer o flynyddoedd. Dymuniadau gorau a phob hwyl i'r dyfodol.

**Nol i'r ysgol**
Dymuniadau gorau i blant a phobl ifanc yr ardal ar ddechrau tymor arall yn yr ysgolion a colegau.

**Newid aelwydydd**
Mae yna dipyn o fynd a dod wedi bod yn yr ardal yn ystod y misoedd olaf.
Mae yna deuluoedd newydd yn Minrheidol, Felin Fawr a Tŷ melyn a gyda chymaint o dai yn dai gwyliau mae ffordd y Cwm yn brysur iawn. Nid yw Statkraft wedi agor y Ganolfan Groeso eleni ond mae Y Tŷ Gloyn Byw yn agored ac yn brysur iawn. Mae yn haf rhyfedd iawn heb sŵn y trên bach, gobeithio yn wir y bydd amgylchiadau yn caniatáu i ni glywed y chwiban y flwyddyn nesaf.

**Cyhoeddi cyfrol**
Llongyfarchiadau i Ioan Lord, Gellifach, ar ei lyfr diweddaraf *O'r Ddaear Fyddar Faith.* Mae yn ddwyieithog ac mae yn canolbwyntio ar bwysigrwydd y cyfnod cloddio am fwyn, plwm, copr ac arian yng Nghanolbarth Cymru. Mae yn lyfr llawn lluniau a llawer o wybodaeth am hanes y diwydiant o'r cyfnod cynhanesyddol hyd at yr ugeinfed ganrif. Cofnod werthfawr iawn o hanes y gweithfeydd yr ardal ac mae yn dangos yn eglur amodau erchyll yr oedd y bobl yn gweithio ynddynt. Gweler adolygiad ar t.15

**Cartref newydd**
Croeso cynnes iawn i Aled, Katie a Bleddyn i'w cartref newydd, sef Penffrwd fach. Mae Aled yn dod yn ôl i'w wreiddiau oherwydd yn Mhenffrwd y drws nesaf y cafodd teulu ei dad eu dwyn i fyny. Croeso mawr!

# DOL-Y-BONT

**Cydymdeimlad**
Gyda thristwch mawr y clywsom am farwolaeth Gwesyn Evans, Pantydwn yn ystod yr haf. Roedd Gwesyn yn un o gymeriadau Dol-y-bont a gwelir ei eisiau yn yr ardal yn ogystal ag ar yr aelwyd ym Mhantydwn. Anfonwn ein cydymdeimlad diffuant at y teulu i gyd yn eu colled.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Vanessa a Peter, Tynsimdde ar enedigaeth Darcy Gladys ddiwedd Mehefin.

D J Evans
Cyfarwyddwyr
Angladdau
Busnes teuluol gyda dros
60 mlynedd o brofiad
Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ
Gwasanaeth personol, urddasol
gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
evansfunerals@talk21.com
Aberystwyth 01970 615328
Penrhyn-coch 01970 820249
Machynlleth 01654 700006

GWE
Cambrian
WEB
Gwefannau
Gwych o Gymru
Creu Gwefannau
Marchnata Digidol
Pecynnau Gofal Gwefan
a llawer mwy!
*Gwasanaeth Gymraeg*
Cysylltwch Heddiw
info@cambrianweb.com
01970 623 906

## Treialon Cŵn Defaid Trefeurig

Cynhaliwyd y treialon ar Orffennaf 25 ar Fanc-y-darren, Y beirniad oedd Martha Morgan, Tregaron. Cafwyd diwrnod llwyddiannus er gwaethaf mymryn o niwl ddechrau'r dydd. Dyma'r canlyniadau ac enwau y cŵn:

Dull Cenedlaethol Agored
1. Dewi Jenkins, Tal-y-bont Jock
2. Eirian Morgan, Aberystwyth Spot
3. Aurwen Price, Llanfair-ym-Muallt Mick
4. Dylan Davies, Tywyn Mot cydradd 5. Dewi Jenkins, Tal-y-bont Cadi a 6. Teifion Morgan, Aberteifi Pip

Dull Cenedlaethol Nofis
1. Dylan Davies, Tywyn Mot
2. Dewi Jenkins, Tal-y-bont Cadi
3. Teifion Morgan, Aberteifi Pip



## Cyngor Cymuned Trefeurig

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth 7 Gorffennaf. Oherwydd Covid 19, nid oedd cyfarfod o'r Cyngor wedi'i gynnal ers mis Chwefror, a chynhaliwyd y cyfarfod hwn ar y we. Roedd Delyth James, y Cadeirydd, yn cadeirio, a'r cynghorwyr Mel Evans, Shân James, Dai Mason, Richard Owen, Gwennan Price ac Eirian Reynolds yn bresennol ynghyd â'r Clerc. Roedd ymddiheurad wedi'i dderbyn gan Edwina Davies.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd a diolchodd i'r cynghorwyr oedd wedi bod yn gyfrifol am godi'r faner ar y ffordd i mewn i Benrhyn-coch, baner oedd yn diolch i weithwyr y Gwasanaeth Iechyd a gweithwyr hanfodol eraill.

Roedd y Cyfarfod Blynyddol, sydd yn arfer cael ei gynnal ym mis Mai, wedi'i ohirio oherwydd Covid 19. Felly etholwyd swyddogion yn y cyfarfod hwn. Ailetholwyd Delyth James yn Gadeirydd am ail flwyddyn a'r un modd fe ailetholwyd Gwennan Price yn Is-gadeirydd am ail flwyddyn.

Materion yn codi: Llwybr Beicio i Gogerddan – roedd y gwaith yn parhau ar hwn. Y garafan ger Ceirios - roedd hon wedi cael ei symud.

Gohebiaeth: roedd llythyr wedi'i dderbyn oddi wrth un o'r plwyfolion yn tynnu sylw at waith torri gwair a thacluso cloddiau yr oedd mawr angen ei wneud. Roedd y Clerc wedi cysylltu gyda'r dyn sy'n arfer gwneud y gwaith i'r Cyngor Cymuned am y pethau oedd yn gyfrifoldeb i'r Cyngor ac wedi anfon copi o'r llythyr ymlaen i Gyngor Ceredigion i dynnu eu sylw at yr hyn oedd yn gyfrifoldeb iddynt hwythau.

Cynllunio: A200151, newidiadau i Lwyn Gwyddil, Capel Dewi – dim sylwadau; A200478, Stad Ger-y-cwm, Penrhyn-coch, newid i amodau cynllunio – dim sylwadau.

Unrhyw fusnes arall: Cartref Tregerddan, Bow St – roedd y Rheolwraig a'r Gogyddes yn ymddeol ym mis Awst. Y ffordd rhwng Glanceulan a'r Cwrt – adroddodd Richard Owen fod rhywun wedi bod yn taflu bagiau o borfa i mewn i'r nant, ac roedd pentyrrau sylweddol o sglodion brigau wedi'u gadael mewn sawl man ar ddwy ochr y ffordd. Penderfynwyd tynnu sylw'r Cyngor Sir at y mater.

# GOGINAN



Llongyfarchiadau i Dîm Bwlch Nant yr Arian sydd wedi derbyn Gwobr 2020 Travellers' Choice Tripadvisor,sy'n golygu fod arolygiadau gan filiynau o deithwyr Tripadvisor wedi eu gosod ar y brig ymhlith 10% o atyniadau gorau'r byd!

**Bwlch Nant yr Arian**
Bwriedir gwneud gwaith gwella ar y gronfa ddŵr ym Mwlch Nant yr Arian, gan ddechrau ddydd Llun 14 Medi 2020, a pharhau tan ddechrau 2021. Bydd hyn yn golygu cau amryw lwybrau (gyda gwyriadau) a dod â pheiriannau trwm ar y safle/ar ein ffordd goedwig, dros y misoedd nesaf.

Y ddau brif ran a fydd ar gau fydd rhan o Lwybr y Barcud (llwybr o amgylch y gronfa ddŵr/llyn ei hun) a fydd yn golygu na fydd y llwybr yn daith gerdded gylchol mwyach tra bod y gwaith yn digwydd.

Hefyd, bydd rhan olaf Llwybr y Mwynwyr (y llwybr melyn) yn cael ei chau a'i dargyfeirio'n ôl ar hyd ffordd y goedwig i'r ganolfan ymwelwyr. Cadwch at yr holl arwyddion a ffensys ar y safle er eich diogelwch eich hun.

(Efallai hefyd y bydd darnau'n cael eu cau a'u dargyfeirio yn y dyfodol agos ar ddwy adran o'r llwybrau beicio mynydd 'High as a Kite' a 'Barcud Bach'. Bydd manylion y rhain yn cael eu cyhoeddi pan fyddant yn cael eu cau, os bydd hynny'n digwydd. Sicrhewch wrth feicio yn Nant eich bod yn dilyn unrhyw arwyddion dargyfeirio yn ofalus)

Mae'r gronfa ddŵr/llyn ei hun wedi'i gofrestru o dan Ddeddf Cronfa Ddŵr 1975, ac felly mae'n rhaid iddo gydymffurfio â gofynion penodol wedi'u pennu gan Beiriannydd Arolygu annibynnol. Bydd y gwaith sydd angen ei wneud yn cynnwys adeiladu gorlifan a phont droed newydd, ynghyd â rhywfaint o waith diogelu rhag erydiad i'r arglawdd i fyny'r afon. Yn ogystal, bydd gwelliannau amgylcheddol yn cael eu gwneud drwy ddarparu pwll newydd ar y safle.

Bydd sesiynau bwydo barcutiaid cochion yn dal i ddigwydd fel arfer – 3pm BST/2pm GMT

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn gyda Maud Evans, Bronwydd a'i phlant Diane a Kevin ar farwolaeth Eifion a fu farw ar Gorffennaf 12. Bu gwasanaeth preifat yn Amlosgfa Aberystwyth.

**Geni**
Ganwyd Macs Harri – mab bach i Euros a Michelle Evans, Y Deri – a brawd bach i Phoebe ar Awst 15. Dymuniadau gorau iddynt.

**Pen blwydd arbennig**
Llongyfarchiadau i Dai Jones, Cefnbangor, fel yr adnabyddir yn lleol, ar ei ben blwydd yn 70 ar Fedi'r 3ydd.

# PENRHYN-COCH

**Horeb**
Ail ddechreuwyd cynnal oedfaon yn Horeb brynhawn Sul Medi 6 pan gafwyd oedfa – yn ôl y cyfyngiadau presennol - dan ofal y Parchg Judith Morris. Bydd gwasanaeth arall brynhawn Sul Medi 20 dan ofal y Parchg Peter Thomas am 2.30 a bydd yr Ysgol Sul yn cyfarfod trwy Zoom ar 20 a 27 Medi – cysyllter â Wendy Reynolds.

**Diolch**
Hoffai Janice Morris, Glan Ceulan, ddiolch i bawb sydd wedi cysylltu, danfon cardiau a rhoddion yn ystod ei salwch. Mae'n gwerthfawrogi'n fawr!

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Joan a David Hunt, Bronheulog a'r teulu ar farwolaeth mam Joan – Ellen Jane Price gynt o Llys y Cwm, Garth, yng Nghartref Tregerddan ar 3 Gorffennaf. Cynhaliwyd angladd preifat oherwydd yr amgylchiadau a derbyniwyd rhoddion er cof tuag at Eglwys Dewi Sant, Llanddewibrefi neu Gyfeillion Cartref Tregerddan.

Hefyd â Margaret Evans, Glanaber, Robert a Karen Evans, Pontseilo; Sian a Janet a'u teuluoedd ar farwolaeth Ceredig Evans, Glanaber ar 25 Gorffennaf. Hefyd â r teulu ehangach – Elfed ac Eirlys Evans, ac Anwen a Tony Wynne, Maesheulog.

Ac â Morris ac Elsie Morgan, Bwthyn, ar farwolaeth chwaer Morris yn Hafan y Waun, Waunfawr.



**Cyfrannu i gyfres boblogaidd**
Bu Jamie Medhurst ar ymweliad â BBC Bangor yr wythnos ddiwethaf yn cyfrannu i raglen yn neuddegfed cyfres 'Great British Railway Journeys'. Yma fe'i gwelir gyda'r cyflwynydd Michael Portillo.

Ac a theulu y diweddar John Corfield, Ger-y-llan, fu farw ganol fis Awst.

**Dod yn hen daid**
Llongyfarchiadau i John Ifor Jones, Maesyfelin, ddaeth yn hen daid ar Orffennaf 17. Ganwyd geneth fach - Eira Lili-ann i Eifion a Christie-ann yng Nghaerdydd.

**Gwobr arall i awdur**
Llongyfarchiadau i Niall Griffiths, Garth, ar ennill gwobr ffuglen Ymddiriedolaeth Rhys Davies am ei gyfrol *Broken ghost* (Jonathan Cape) fel rhan o wobrau Llenyddiaeth Cymru.

**Canlyniadau lefel A**
Llongyfarchiadau i Dafydd Roberts, Dôl Helyg, ar ei ganlyniadau lefel A – dymuniadau gorau iddo ym Mhrifysgol Caerdydd lle bydd yn astudio Archaeoleg a Hanes yn yr Hen Fyd ac i Cerys Reeves – gynt o Dôl Helyg - Wrecsam erbyn hyn – ar ei chanlyniadau ac ar gael lle i astudio nyrsio ym Manceinion.

**Newid aelwyd**
Dymuniadau gorau i Haydn Foulkes, Maesyrefail, sydd wedi symud i fyw i Aberystwyth.

**Priodas Aur**
Llongyfarchiadau i John ac Eirwen Hughes, Pen-cwm ddathlodd eu priodas aur ar 22 Awst.

**Pen blwyddi arbennig**
Dymuniadau gorau i'r Parchg Lyn Lewis Dafis, Y Ficerdy, a Ritchie Jenkins, Cwmbwa, ddathlodd ben blwyddi arbennig yn ddiweddar.

**Urddo i'r Orsedd**
Llongyfarchiadau i Dr Angharad Fychan, Glanrafon, am gael ei hurddo i'r Orsedd yn Nhregaron y flwyddyn nesa.

**Graddio**
Llongyfarchiadau i Dewi Davies o Aberaeron – ŵyr Megan Davies, Pantdrain ar raddio o Brifysgol Aberystwyth â gradd dosbarth cyntaf mewn Amaethyddiaeth. Dymuniadau gorau iddo yn ei swydd gydag Amaethwyr Clynderwen a Cheredigion.

**CPD Penrhyn-coch**
Er nad yw Tim Rheoli newydd CPD Penrhyn-coch, Y Rheolwr Aneurin Thomas a'i Is-Reolwr Sion James yn gwybod pryd fydd y tymor newydd yn dechrau, maent wedi bod yn brysur yn rhoi y bechgyn ar waith mewn hyfforddiant cyn y tymor - i gyd yn unol â rheolau Cofid fel sydd wedi cael ei bennu gan Gymdeithas Bêl-droed Cymru.

Mae'r chwaraewyr newydd yn cynnwys Garmon Nutting a Dylan Benjamin o Bow Street, Cledan Davies sy'n dychwelyd o Dregaron, Niall Coleridge o Lanidloes, Joshua Ferreira o'r Borth, James Morgan a Ryan Rodgers o Fryn-crug Tywyn a chyda thim yr Eilyddion yn ymuno mewn Cynghrair newydd sbon mae yna amseroedd disglair o'n blaen.

Gobeithir cael cadarnhad y gallwn drefnu chwarae gemau cyfeillgar cyn dechrau'r tymor ac yna cael dyddiadau i ddechrau ein Tymor newydd JD Gogledd ar gyfer 20/21.

**Pen blwydd arbennig**
Pen blwydd hapus iawn i Gina Evans, Beech House, sy'n dathlu ei ph en blwydd yn 80 oed ar 20fed o Fedi.

**Trosglwyddo allweddi i ddynodi cwblhau Campws Arloesi a Menter newydd Aberystwyth**
Ddydd Llun 24 Awst 2020 cafodd set olaf yr allweddi ar gyfer Campws Arloesi a Menter Aberystwyth (ArloesiAber) eu trosglwyddo, wedi i'r gwaith adeiladu ar y ganolfan bio-wyddoniaeth newydd o ansawdd byd-eang gael ei gwblhau ar amser ac o fewn y gyllideb ar ôl rhaglen adeiladu ddwy flynedd.

Roedd tîm ArloesiAber, ynghyd â rhanddeiliaid allweddol a chynrychiolwyr o'r cwmni adeiladu Willmott Dixon, yn Hwb Arloesi'r campws i ddathlu cwblhau'r adeilad terfynol.

Gan gadw pellter cymdeithasol, cynhaliwyd seremoni i nodi trosglwyddo'r allweddi i gydnabod cwblhau'r prosiect a chreu Canolfan Bioburo, Biofanc a Chyfleuster Prosesu Hadau, Canolfan Bwyd y Dyfodol, Canolfan Dadansoddi Uwch a Hwb Arloesi newydd.

Dywedodd Prif Swyddog Gweithredol ArloesiAber, Dr Rhian Hayward MBE: "Mae ArloesiAber yn fuddsoddiad mawr yn seilwaith ymchwil ac arloesi ar gyfer y DU. Rwy'n hynod falch o dderbyn yr allweddi gan ein contractwyr, sydd wedi creu'r cyfleusterau cymhleth yma a hynny i safon eithriadol. Rydym eisoes yn denu llif o brosiectau cydweithredol i'w cynnal yn yr adeiladau newydd sy'n dyst i weledigaeth ein buddsoddwyr. Bydd ArloesiAber yn gatalydd ar gyfer ymchwil a datblygu arloesol a rhyngddisgyblaethol,



**Cricedwr ifanc**
Llongyfarchiadau i Iestyn Roberts, Garn Wen, sydd wedi cael ei ddewis i ymarfer a chwarae gyda sgwad elît dan 11eg Gogledd a Chanolbarth Cymru, Bwrdd Criced Cymru. Bu'n chwarae yn Nhrefaldwyn ar Fedi 6ed.



ac edrychwn ymlaen at gefnogi datblygu cynnyrch newydd a chreu swyddi."

Mae'r trosglwyddo'n dynodi dechrau cam gweithredol y Campws a dderbyniodd £3m o gyllid refeniw ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn ddiweddar.

**PATRASA**
Ar ôl wythnosau o'r clo oherwydd Cofid 19, mae PATRASA ( Pwyllgor Parc Penrhyn-coch ) wedi gallu ail-agor y Parc ym mis Awst. Mae'r Parc wedi cael defnydd uchel ers ei ail-agor ac mae PATRASA yn hapus i ddweud ein bod wedi bod yn brysur dros yr amser clo ac fe fydd gatiau newydd a si-so newydd yn cael ei rhoi yn lle y cyfarpar presennol ym mis Hydref.

Yn anffodus dros y misoedd dwetha, bu rhaid cael gwared ar y bariau mwnci a rhan o'r uned ddringo, a fydd yn cael ei golli gan nifer o'r plant. Mae PATRASA yn gobeithio amnewid rhein gyda chyfarpar newydd fydd yn costio tua £25,000. Oherwydd Cofid nid yw PATRASA wedi gallu cynnal ein digwyddiadau arferol, megis Parti yn y Parc, Gŵyl Gwrw, raffl ac ati, ac mae colled y digwyddiadau yma wedi cael effaith ar incwm yr elusen ac er mwyn i ni allu cadw'r Parc mewn modd taclus a diogel ac sydd yn hwyl i'r plant , mae PATRASA angen eich help. Os hoffai unrhyw un gyfrannu yn ariannol ( a diolch i rhai sydd wedi gwneud yn barod) neu os oes syniadau am godi arian gennych, a allen wneud mewn modd o dan yr amodau presennol, cysylltwch gyda PATRASA ( Pwyllgor y Parc) drwy neges ar ein tudalen Facebook, neu drwy siarad â'r Cadeirydd Clare Larke ar 07922 360813, y Trysorydd Marion Thompson, neu'r Ysgrifenyddes digwyddiadau Glenys Morgan. Mae ein diolch i'r rhai sydd wedi helpu i gael y Parc nôl i edrych yn wych dros y mis dwethaf a diolch i chi gyd am eich cymorth parhaus.

**Cymdeithas y Penrhyn**
Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Cymdeithas y Penrhyn trwy Zoom nos Iau 10 Medi. Roedd teimlad cryf y dylem barhau i gyfarfod gan dderbyn y bydd raid gwneud hynny'n rhithiol am y tro. Ein gobaith yw dychwelyd i festri Horeb cyn gynted fyth ag y bydd hynny'n ymarferol ac yn ddiogel.

Penodwyd swyddogion fel isod am 2020/21
Cadeirydd: Gwerfyl Pierce Jones
Is-Gadeirydd: William Howells
Ysgrifennydd: Ceris Gruffudd,
Ysgrifennydd Aelodaeth: Carwen Fychan
Trysorydd: Eirian Reynolds
Swyddogion y Wasg: Non Evans a Brenda Williams
Y tâl aelodaeth yw £10, gyda thâl gostyngol o £7 i bensiynwyr, y digyflog a myfyrwyr; £3 yw'r tâl am un cyfarfod. Mae croeso i bawb yn y Gymdeithas.

Rydym wrthi'n gweithio ar y rhaglen ar hyn o bryd - bydd sgwrs gan Rhuanedd Richards ym mis Tachwedd a gallwn addo y bydd yr arlwy yr un mor ddifyr ac amrywiol ag arfer.

**Merched y Wawr**
Cyfarfu y gangen o Ferched y Wawr yn y Clwb Pêl-droed nos Iau 10 Medi. Bydd y cyfarfod nesaf yn y Clwb nos Iau 12 Tachwedd – byddwn yn falch o gael croesawu aelodau newydd i ymuno.








**Te Mefus**
Ers yn agos i chwarter canrif bu'r Te Mefus yn ddigwyddiad pwysig yng nghalendr y plwyf a'r gymuned. Ond doedd hi ddim yn bosib i dorf ddod at ei gilydd ddechrau Gorffennaf; penderfynwyd rhoi'r Te mewn bocs a chreu Te Mefus Têc-awe S. Ioan Penrhyn-coch. Defnyddiwyd y cyfryngau cymdeithasol i hysbysebu a chafwyd ymateb anhygoel - gwerthwyd y cyfan o fewn pedair awr ar hugain. Casglwyd y Te o faes parcio Neuadd yr Eglwys gan gadw at reoliadau pellhau cymdeithasol. I'r rhai dros eu 70 oed neu yn cysgodi cynigiwyd ei ddosbarthu. Rhoddwyd bocs yn rodd i'n siop a'n garej leol fel diolch iddyn nhw fel plwyf am eu hymdrechion fel 'gweithwyr allweddol' mewn cyfnod anodd. Daeth gweld dyn wedi'i wisgo fel mefusen yn dosbarthu Te Mefus Têc-awe â gwên i wyneb llawer ar y dydd ac fe godwyd calon plwyf dan glo!

# Colofn Enwau Lleoedd

Safle rhwng ffermydd Bryngwyn Mawr ac Elgar, i'r dwyrain o bentref Rhydypennau, sydd dan sylw yn y golofn y tro hwn; safle ar lan ddeheuol y nant sy'n tarddu ger Mynyddgorddu gan lifo tua'r gorllewin i'r Dole. Nid oes olion i'w gweld yno heddiw, ond mae'r map stad luniwyd o fferm Pen-y-cefn yn 1778, yn dangos tyddyn a gâi ei adnabod fel *Dôl-lipa*.



29 Dôl lippa House, Fold & 2 closes
30 Field east &c
31 Open land south of Dôl lippa
32 Do east of last

Maps of the Court Grange Estate, T. Lewis, 1778: Pen-y-cefen
***Trwy ganiatâd Llyfrgell Genedlaethol Cymru***
**http://hdl.handle.net/10107/1446048**

Nodir 'Cottage and Garden' ar ei gyfer ar Fap Degwm Llanfihangel Genau'r-glyn yn 1847, ond caiff ei enwi fel *Dolelip(p)a* yng Nghyfrifiad 1851 ac 1861.

Er bod pob arwydd o unrhyw adeilad wedi diflannu bellach, goroesodd *Dôl-lipa* fel enw'r cae lle safai'r tyddyn yn ôl Vernon Jones, Gaer-wen, Bow Street (sydd â chysylltiadau teuluol â Phen-y-cefn).

Daw'r cyfeiriadau cynharaf at yr enw o gyfres o ddogfennau yng Ngweithredoedd Stad Trawsgoed rhwng 1726 ac 1775, ond mae ei sillafiad yn amrywio'n fawr, er enghraifft *Ole-lippa* (1726: rhif I. 709), *Dol-y-nippa* (1745: rhif I. 855), *Ddolen-lippa* (1768: rhif I. 1013 a 1015), a *Dole lippa* (1775: rhif I. 1067).

Nid yw'n amhosibl mai *dolen* oedd yr elfen gyntaf yn wreiddiol am fod sillaf ychwanegol ar ôl y sillaf gyntaf yn rhai o'r ffurfiau cynnar hyn, ond os felly, ymddengys i'r ffurf *dôl* ennill ei phlwyf dros amser.

Ystyr wreiddiol *dôl* oedd 'tro mewn afon', ond daeth i olygu'r 'tir wedi ei amgylchynu gan dro mewn afon', cyn datblygu i gyfeirio'n fwy cyffredinol at 'dir gwastad ar lan afon'. (Gellid dehongli'r elfen *dolen* yn yr un modd gan mai cyfuniad ydyw o *dôl* a'r terfyniad bachigol benywaidd *-en*, yn golygu 'dôl fach'.) Byddai hynny'n ddisgrifiad digon teg o leoliad *Dôl-lipa* ar lan y nant.

Er gwaetha'r ffurf *nippa* yn un o weithredoedd Stad Trawsgoed yn 1745, gellir bod yn eithaf sicr mai *llipa* yw ail elfen yr enw. Ystyr arferol yr ansoddair hwnnw yw 'lliprynnaidd, diymadferth, meddal', neu'n ffigurol 'diafael, eiddil, disylwedd, aneffeithiol'.

Yn y golofn 'Nabod Ardal' yn *Y Tincer* yn 1987 (rhifyn 96, t.5) awgrymodd Cledwyn Fychan:

> Ystyr *dôl* yw tir gwastad o fewn tro neu ddolen mewn afon ac os na fyddai llawer o dro yn yr afon yna fe fyddai'r ddôl yn un gul, diafael neu lipa a dyna'n union beth sydd i'w weld yn Dolenlipa.

Posibilrwydd arall gwerth ei ystyried yw mai disgrifiad sydd yma o natur feddal neu gorsiog y ddaear, fyddai'n ddigon credadwy yng nghyd-destun tir ar lan nant.

Gellir cymharu'r enw â thyddyn *Cefnllipa* ym mhlwyf Llanafan Fawr, Brycheiniog.

Fodd bynnag, ni ddylid dwyn cymhariaeth, â *Chaellepa* ar gyrion Bangor, er mai 'Cae llipa' yw'r ffurf ar Fap Degwm plwyf Bangor, sir Gaernarfon. Dangosodd Ifor Williams yn y gyfrol *Enwau Lleoedd* (1945: t.12) mai datblygiad yw ail elfen yr enw hwnnw o'r gair *lletbai* yn golygu 'ar oleddf, yn gwyro tuag i lawr'.

**Angharad Fychan**

**Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru**


**www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru**






# Adolygiad

Ioan Lord *O'r ddaear fyddar faith: mwyn o Ganolbarth Cymru*
Y Lolfa, 2020 **£ t.**




Mae'n hysbys i'r rhan fwyaf ohonon ni bod Ioan Lord wedi bod wrthi ers blynyddoedd yn twrio'n ddyfal i hanes y gweithiau mwyn yng ngogledd Ceredigion ac wedi bod yn fwy na pharod i rannu ei gynhaeaf mewn sgwrs, darlith neu daith. Cyhoeddwyd ei lyfr cyntaf, *Rich Mountains of Lead* yn 2018 gan Gwmni Rheilffordd Cwm Rheidol, a'i gydnabod yn arweinlyfr gwerthfawr a phwysig i bawb sy'n ymddiddori yn hanes daeargeol gogledd Ceredigion. Eleni, yng nghanol hirlwm clo'r pandemig, ymddangosodd ei ail lyfr, yn ddwyieithog. Teitl hudolus y fersiwn Cymraeg yw **O'r Ddaear Fyddar Faith**, sef dyfyniad o Fawl-gerdd Mwyngloddwyr Ceredigion gan Ywain Meirion a gyhoeddwyd yn 1854; ***Worn by Tools and Time*** yw teitl y Saesneg, a hynny'n ddyfyniad o ddisgrifiad o olion Gwaith Grogwynion ger Pont-rhyd-y-groes yn 1850.

Mae'r llyfr hylaw, meddal ei glawr, yn gyforiog o ffeithiau a'r testun yn y ddwy iaith wedi ei osod mewn colofnau cyfochrog. (Fe fyddwn i wedi gwerthfawrogi ei gael mewn ffont fwy o faint.)

Mae pedair rhan y llyfr, sef 1. 4,000 o flynyddoedd o gloddio; 2. Y mwynfeydd ar waith; 3. Bywyd a chymdeithas; 4.Ddoe a heddiw, yn cyflwyno hanes anhygoel o hir mwyngloddio yn yr ardal hon, yn mynd i gryn fanylder ynghylch dulliau gweithio a'r gymdeithas o gylch y gweithiau, ac, yn werthfawr iawn, yn agor ein llygaid i weld a deall olion y diwydiant sydd yn dal o'n cwmpas ar hyd y wlad.

Wrth drafod y gymdeithas rhoir sylw i'r mewnfudo sylweddol fu i'r ardal o wahanol wledydd ar wahanol adegau a'r gweithwyr hynny a'u teuluoedd yn dod â'u hieithoedd, eu harferion diwylliannol a'u crefydd gyda nhw.

Mae'r holl wybodaeth yn gyfaredd, a'r lluniau, hen a diweddar, yn fwy fyth o gyfaredd. Pwy ddychmygai fod y fath waith celfydd dan brif stryd Tal-y-bont, a finnau am y tro cyntaf yn cael gweld beth yn hollol yw "lefel arch." Rhaid atgoffa'n hunain er hynny mai golau llachar y camera sy'n ein galluogi i weld y lliwiau gogoneddus sy'n y creigiau; llwyd tywyll fyddai byd y mwynwr druan.

Er nad oedd yr un mwynwr yn dal i weithio yn yr ardal pan anwyd fy nghenhedlaeth i, oni bai amdanyn nhw fyddai llawer ohonon ni ddim yma. Rown i'n ymwybodol yn gynnar iawn mai gweithwyr mwyn oedd fy nau hen-dad-cu ar ochr fy mam. Gydol fy mhlentyndod clywn ddiferion o'r gorffennol mwyngloddiol mewn sgyrsiau heb sylweddoli eu harwyddocâd, yn enwedig y sôn am frawd fy mam-gu, Edward Edwards (Ned bach), a laddwyd yng ngwaith Cwmsebon ym mis Mawrth 1883 pan dorrodd y styllen dros y siafft wrth iddo ei chroesi, ac yntau yn ddim ond deunaw oed.

Llawenydd mawr i mi felly oedd cael y llyfr hwn i ddechrau llenwi'r bylchau tra niferus sydd yn fy ngwybodaeth – gyda chymaint i sylwi arno ym mhob tudalen byddai Mynegai wedi bod yn werthfawr dros ben.

Dylai'r hanes yma fod yn rhan o dreftadaeth pob plentyn ysgol yn yr ardal. Nid gwybodaeth i'w lloffa ar ambell i ymweliad ag ambell i amgueddfa sydd yma ond cyfoeth o ymwybyddiaeth o'r hyn aeth o'n blaenau, map dwfn o'r ddaear dan ein traed, o'r graig y naddwyd ni ohoni. Mae Ioan Lord yn haeddu ein diolch.

**Llinos Dafis**

SIOP
SGIDIAU GWDIHW
Shan Jones
8 Ffordd Portland,
Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092
GWASANAETH
GOFAL TRAED
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig
ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod, Dip.Pod.Med.

## Llythyr

Annwyl Olygydd,

Newydd gael cipolwg drwy rifyn Mehefin o'r *Tincer* ar-lein, a darllen y darn am Alcwyn Magor. Pan oeddwn i'n grwt yn ardal Pont-rhyd-y-groes roedd gwr ifanc o'r enw Meurig Magor yn cystadlu mewn rhai mabolgampau lleol, ac yn rhedwr da. Flynyddoedd yn ôl bellach, roedd y côr meibion rwy'n perthyn iddo, Côr Meibion Talgarth, yn cynnal cyngerdd i Gymdeithas Gymraeg Henffordd, a dywedwyd wrthym y byddai un o swyddogion y gymdeithas yn rhoi gair o groeso i'r côr ar y dechrau. Enw'r gŵr hwn oedd Meurig Magor, ac roedd yn fwriad gen i i fynd i gael gair ag e ar y diwedd i weld ai'r un Meurig Magor oedd e. Beth bynnag, yn fuan ar ôl i'r cyngerdd ddechrau fe welsom fod parafeddygon wedi cael eu galw i gefn y neuadd, gan fod rhywun mewn trwbwl. Aethpwyd â'r person i Ysbyty Henffordd, a chawsom ar ddeall mai Meurig Magor oedd e. Ar ddiwedd y cyngerdd daeth y newydd trist ei fod e wedi marw. Tybed ai'r un Meurig Magor oedd e â'r un a arferai redeg? Tybed a symudodd e i ardal Henffordd i fyw?
Byddai'n ddiddorol cael gwybod.
Cofion gore,
John Meurig, Aberhonddu

Cysylltwyd â Brian Davies a chael yr Ateb yma:
Diolch am y cysylltiad. Ie fy nghefnder oedd Meurig Magor. Ganwyd yn 1931 a buodd farw yn 2002. Unig fab i Alcwyn a Sal Magor. Roedd yn athro yn Ysgol Arglwydd Scudamore yn Henffordd. Wedi priodi ddwywaith. Buodd ei ail wraig farw yn 2007. Yn drist iawn fe aeth ei fab Phillip , daearegwr adnabyddus, ar goll am nifer o ddiwrnodau yn Nhachwedd 2019 a darganfyddwyd ei gorff ar draeth yn Aberystwyth.
Rwyf yn cynnwys llun o Meurig gyda ei fam-gu (a fy mam-gu i ) gyda Sal Magor a hen fam-gu Meurig tua diwedd y 30au yn Salem.
Cofion gorau
Brian Davies



# Ysgol Penrhyn-coch




**Cyfnod yn ôl yn yr ysgol**

Cafwyd tair wythnos arbennig yn ôl yn yr ysgol cyn gwyliau'r haf-roedd gweld wynebau cyfarwydd unwaith eto o fewn adeilad yr ysgol yn fendigedig. Mi fuodd yn gyfle i ymgyfarwyddo gyda bywyd ysgol ar ei newydd wedd ac wrth gwrs dal lan gyda helyntion pawb!

Mi fuodd y plant yn mwynhau llawer o waith celf, rhoi'r byd yn ei le, ymlacio tu allan, garddio a pharatoi I'r tymor newydd.

Cafodd y plant her i werthfawrogi/adolygu cân newydd yr enwog Yws Gwynedd - sef y 'Deryn du' ond cafodd y plant sioc wrth iddyn nhw wylio fideo o gyfarch oddi wrth y dyn ei hun!! Spesial!

Doeddwn ni ddim yn medru ffarwelio ar ddiwedd tymor heb gael ein mabolgampau blynyddol a diolch i Miss Cory a Mr Shepherd am drefnu a pharatoi cystadlaethau i ni dros 'Teams'-roedd y cystadlaethau gwahanol yn cael eu rhannu bob bore trwy fideo- roedd yn rhaid i bob aelod o staff ddangos sut oedd cyflawni'r campau!!

Roedd yr athrawon yn cadw cyfanswm sgor y timau ar ddiwedd bob dydd ac erbyn dydd Gwener Seilo oed y Pencampwyr!

Braf oedd gweld teulu Jenkins garej Ty mawr yn cymryd y cystadlu o ddifri-dyma nhw yn cwblhau

'Y Plank'!! Ydych chi'n adnabod y 4 sydd yn y llun??

**Diwedd cyfnod i Flwyddyn 6**

Fel y gwyddoch doedd hon ddim yn flwyddyn arferol i ffarwelio gyda chriw blwyddyn 6 ond er gwaetha'r methu cael pawb ynghyd ar dir yr ysgol trwy drefnu celfydd Mrs Lynwen Evans cafwyd gwasanaeth hyfryd trwy'r rhaglen 'Teams' ar Hwb. Roedd pob un disgybl a'u teuluoedd yn medru gweld ei gilydd o Ysgolion Penrhyn-coch a Phen-llwyn a darllenodd pob disgybl eu hatgofion. Cafwyd cân ar yr Ukulele gan Mrs B Evans; roedd gan pob aelod o staff neges ffarwel a chafwyd gwledd o hen luniau! Braf oedd gweld y disgyblion yn gwisgo eu siwmperi 'Leavers' ac fe gafodd pob un ffram wedi ei bersonoli iddyn nhw.

Pob hwyl i chi ym Mhenweddig a Phen-glais- byddwch i gyd yn esiampl arbennig! Mae sawl disgybl wedi dod nôl yn barod i ddweud 'helo' ac roedd y staff wrth eu boddau yn eich gweld mor smart yn eich gwisg ysgol newydd!

**Diwedd cyfnod o lanhau**

Hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch i Mrs Lynne Jones am ei gwasanaeth di flino yn glanhau'r ysgol-daeth ei




chyfnod i ben diwedd tymor ond mae'n parhau i ofalu am y disgyblion amser cinio.

Hoffwn ddiolch i Craig Usher hefyd sydd wedi dod i ddiwedd ei gyfnod wrth lanhau yn yr ysgol

Dros yr haf mae'n rhaid i ni ddiolch i'r rhai fuodd yn gofalu am yr ieir a'r gwningen tra oedd pawb ar eu gwyliau. Diolch i Elis a Jac Jenkins, Yr Efail, sydd wedi bod nôl a mlaen yn bwydo'r ieir a Theulu Mackarruk sydd wedi gofalu am Peni y Gwningen

**Disgyblion Newydd**

Ar gychwyn tymor newydd braf oedd agor y drysau led y pen i ddisgyblion a theuluoedd newydd. Croeso cynnes i chi gyd. Gobeithio byddwch yn hapus yn ein plith.

Dosbarth Derbyn- Lyra, Ifan, Morgan, Cole, Sion, Millie, Riley, Lleucu, Zac, Isla-Rose

Bl 1 a 2 -Lacey ac Asher

Blwyddyn 6-Poppy



Rydyn ni'n gweithio'n galed ar gorsaf Bow Street

Rydyn ni'n adeiladu gorsaf reilffordd newydd yn Bow Street rhwng Borth ac Aberystwyth. Bydd yr orsaf newydd yn cynnwys maes parcio, cyfnewidfa fysiau a llefydd i storio eich beic.

Rydym wrthi'n creu'r ffordd fynediad newydd i Bow Street, gan symyd y gyffordd bresennol rhwng yr A487 a'r A4159.

Diolch i bawb am eich amynedd. Cofiwch wneud eich gwaith cartref cyn teithio.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

ewch i trc.cymru
visit tfw.wales
ebost | email bowstreet@tfw.wales

# Ysgol Pen-llwyn



**Ail-agor o'r diwedd!**
Braf oedd cael agor drws yr ysgol, a chlywed disgyblion yn chwarae ar yr iard unwaith eto wedi i Covid-19 ein gorfodi i gau ein drysau ym mis Mawrth! Roedd disgyblion, athrawon a rhieni yn falch o gael dod at ein gilydd i sgwrsio am ein profiadau dan glo, creu gwaith celf gwreiddiol a pharatoi am yr Haf a'r tymor newydd.

Serch methu dod at ein gilydd, roedd tipyn o gystadlu yn ein **mabolgampau rhithiol** eleni. Da iawn blant (a rhieni) am gymryd rhan ac anfon fideos yn ddyddiol! Llongyfarchiadau i Melindwr, y tîm buddugol!

Er nad yw'r plant yn **brwsio dannedd** yn yr Ysgol ar hyn o bryd, derbyniodd pob plentyn y Cyfnod Sylfaen brws a phast dannedd gan Emma o 'Cynllun Gwên'. Derbyniwyd gyda diolch.

Ar ddiwedd y tymor derbyniodd pob un plentyn yr Ysgol **garden a bathodyn 'Cwtsh heb dwtsh'**. Diolch yn fawr i Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am drefnu a thalu am yr anrhegion hyfryd i'r plant.

Rydym wrthi yn ail-agor yn raddol i'n holl ddisgyblion wedi'r Haf. Edrychwn ymlaen yn fawr at y tymor i ddod!

**Sioe Capel Bangor**
Gwelon ni eisiau'r Sioe eleni ond edrychwn ymlaen at 50fed Sioe Capel Bangor a'r Cylch y flwyddyn nesaf. Bydd hi'n ddathliad a hanner!

**Ffarwel**
Dymuniadau gorau i'r disgyblion sy'n ein gadael eleni i symud i'r cam nesaf yn eu haddysg yn Ysgol Penweddig ac Ysgol Pen-glais. Cafwyd gwasanaeth ffarwelio tra gwahanol eleni, wrth inni fentro a llwyddo, i gynnal gwasanaeth ffarwelio rhithiol o dan arweiniad Mrs Lynwen Evans. Er yn wahanol, profiad arbennig iawn oedd hi i ddisgyblion blwyddyn 6 Ysgolion Pen-llwyn a Penrhyn-coch, eu teuluoedd a'u hathrawon, ddod ynghyd i hel atgofion, a'r rheiny yn rhai melys tu hwnt. Rhannwyd sawl gwên, ac ambell ddeigryn! Dymunwn pob llwyddiant i chi yn yr ysgol uwchradd. Gwnewch yn siŵr eich bod yn taro heibio i ddweud helo!

Ffarwel hefyd i Alwena, ein glanhawraig, sydd wedi ein gadael ni yr Haf yma. Dymuniadau gorau iddi yn ei swydd newydd.

**Croeso**
Croeso mawr i'r disgyblion newydd sydd wedi cychwyn gyda ni ym mis Medi: Jack Hughes a Zahara Mancini-Howells. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn ein plith.

Croeso nôl hefyd i Mr Bryn Shepherd i addysgu dosabrth 2, wedi ei gyfnod fel Dirprwy Dros Dro Ysgol Penrhyn-coch. Mae'r plant a'r rhieni yn hynod falch eich bod chi nôl. Croeso hefyd i'n glanhawraig newydd, Amanda, gobeithio y gwnewch chi fwynhau gweithio ym Mhen-llwyn. Llongyfarchiadau gwresog hefyd i Mrs Bethan Evans ar ei phenodiad fel Dirprwy Bennaeth ar draws Ysgol Pen-llwyn ac Ysgol Penrhyn-coch. Dymunwn pob hwyl iddi yn ei rôl newydd. Diolchwn i Mrs Emma Parr-Davies am ei gwaith diwyd fel Pennaeth Cynorthwyol Dros Dro yr ysgol dros y ddwy flynedd diwethaf, rydym yn ffodus iawn o'ch cael yn aelod o'r staff y medrwn ddibynnu arni ar unrhyw achlysur.

Dilynwch yr ysgol ar trydar @ ysgolpenllwyn neu ein tudalen Facebook.






STORFA CANOLBARTH CYMRU
MID WALES STORAGE
Storfa Cartref a Busnes
Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion
Monitro Diogelwch 24 Awr
Wedi ei wresogi
Bocses a 'bubblewrap' ar lein
www.boxshopsupplies.co.uk
Mid Wales REMOVALS
Ffôn: 01654 703592
Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ
www.midwalesstorage.co.uk

Trefnwyr Angladdau
C T Evans
Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn, wedi ei arwain yn bersonol gydag urddas. Capel Gorffwys Preifat, Gwasanaeth Dydd a Nos.
01970 820013
gwyn@ct-evans.co.uk
Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY24 5BS

# CAPEL MADOG

**Ennill Cymhwyster**
Llongyfarchiadau i Mererid Lewis Davies, Gofilon ( a Rhos-goch) ar gael ei gwneud yn Gydymaith gyda CIPD ddiwedd Gorffennaf ac wedi pasio lefel 5 Rheolaeth Adnoddau Dynol

**Pen blwydd arbennig**
Dymuniadau gorau i Elwyna Davies, Tyncwm, a ddathlodd ben blwydd arbennig yn ystod mis Awst. (Gol.)

**Diolch**
Hoffai Eirian ac Arthur, Lluest Fach, ddiolch o galon i bawb am y cardiau, blodau a'r rhoddion, a phob galwad ffôn a dderbyniom ar achlysur dathlu ein Priodas Aur ym mis Mehefin.

**Pen blwydd hapus**
Llongyfarchiadau i Huw Meredith, Maesawel ar ddathlu ei ben blwydd yn 18 oed.

**Croesi'r bont**
Pob lwc i Siân Evans, Llain y Felin sydd wedi mynd i Ysgol Penweddig.

**Cartref newydd**
Dymunwn pob hapusrwydd i Dr Hanna Binks, Trysor, yn ei chartref newydd yn Cefnllwyd Cottage.

**Gwellhad buan**
i Margaret Hughes, Gellinebwen ar ôl derbyn triniaeth yn Ysbyty Felindre, Caerdydd;


i Siôn Meredith, Maesawel ar ôl ei lawdriniaeth;

i Dai Powell, Nantybwla ar ôl treulio ychydig ddyddiau yn Ysbyty Bron-glais.

**Cydymdeimlad**
Estynnwn ein cydymdeimlad ag Evelyn Morgan , Cefnfaenor, Capel Dewi, ar golli ei gŵr, tad a thad-cu annwyl, Mr Islwyn Morgan. Bu Mr Morgan yn athro yn Ysgol Rhydypennau ac yn brifathro Ysgol Pontrhydfendigaid.


**Mynd i'r Brifysgol**
Llongyfarchiadau i Lleu Arthur, Sanclêr, ŵyr Eirian ac Arthur Hughes Lluest Fach, ar ei ganlyniadau lefel A a dymuniadau gorau iddo pan fydd yn mynd i Brifysgol Bangor.

**Ymddeol o gneifio**
Bu Dai Evans, Fferm y Fronfraith, ar Radio Cymru yn sgwrsio gyda Geraint Lloyd, am y cyfnod bu yn cneifio yn ystod y deugain mlynedd. Mae wedi rhoi gwasanaeth rhagorol i ffermwyr yr ardal ac wedi penderfynu ymddeol o'i waith cneifio. Pob lwc i'w fab Rhys fydd yn parhau gyda'r gwasanaeth cneifio.



Uchafbwyntiau'r mis ar
BroAber360.cymru


GAIR GAN YR YSGOGYDD
Helo bawb! Gyntaf oll, dw i'n gobeithio eich bod i gyd yn cadw'n iawn yn ystod y cyfnod ma. Er gwaetha'r Covid, cafodd BroAber360 lansiad digidol llwyddiannus yn ddiweddar, a dyma gip ar y straeon poblogaidd ar eich gwefan fro dros y mis diwethaf. Diolch i bob un ohonoch sydd wedi bod yn creu! Dan



YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YN ABERYSTWYTH: GOLWG YN ÔL
Diolch i Wiliam Howells am ei luniau o Steddfod Genedlaethol Aberystwyth ym 1992. Pa ffordd well o edrych ymlaen i flwyddyn nesa', na edrych nôl ar y tro olaf roedd y Brifwyl yn ein bro?



DYSGU SGIL NEWYDD YN Y CYFNOD CLO
Beth y'ch chi di bod yn ei wneud dros y cyfnod clo? Bu Beth Jenkins yn dysgu sut i ddatrys Ciwb Rubiks - a dyma hi'n cwblhau'r dasg mewn llai na dwy funud!



CERDDI'R EISTEDDFOD GOLL
Mae hi di bod yn Awst tipyn tawelach na'r arfer. Ond hyd yn oed heb Steddfod rydym dal yn gallu mwynhau cerddi newydd - diolch i Eurig Salisbury am y clip sain yma o'i gerdd am y Steddfod Goll.



Ffili aros tan y papur nesa'?
– BroAber360.cymru

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture
Morfa Mawr
Aberystwyth
SY23 2HH
01970 617996

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION
13 Stryd y Bont, Aberystwyth
01970 626 200

GWASANAETH GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol

GWASANAETH
TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

## Ysgol Penweddig

**Bedydd Tân i'r Pennaeth Newydd**

Mae gan Ysgol Penweddig bennaeth newydd. Penodwyd Dr Rhodri Thomas ychydig o ddyddiau cyn y clo-lawr, ac felly mae wedi profi bedydd tân wrth gychwyn ei waith yn swyddogol yn yr ysgol y mis hwn, yn ymdopi gyda'r holl anawsterau mae Covid wedi achosi. Serch hynny, mae'r ysgol wedi ail-agor yn lwyddiannus, ac mae pawb yn dymuno'r gorau iddo yn ei waith dros y blynyddoedd i ddod.

Cafodd Dr Thomas ei fagu yng Nghaerfyrddin, ac yr oedd yn ddisgybl yn Ysgol Bro Myrddin. Astudiodd gemeg ym Mhrifysgol Rhydychen, cyn symud ymlaen i gyflawni ei dddoethuriaeth yng Nghaeredin. Fel awdur nifer o werslyfrau safon uwch cemeg yn y Gymraeg a'r Saesneg, mae'n parhau i fod yn llysgennad dros bwysigrwydd y gwyddorau. Dechreuodd ar ei yrfa mewn addysg uwch, yn gweithio mewn prifysgolion ym Mhrydain, Yr Unol Daleithiau ac Awstralia. Roedd y gwaith o addysgu myfyrwyr, ac yn enwedig gwaith 'outreach' gyda disgyblion o gefndiroedd difreintiedig yn ysbrydoliaeth iddo, gan brofi'r gwahaniaeth gall unigolyn gwneud i fywyd plant a phobl ifanc.

Symudodd i weithio mewn ysgolion uwchradd tua ugain mlynedd nol ac mae wedi treulio ei yrfa mewn ysgolion Cymraeg a dwyieithog. Mae Dr Thomas yn credu'n gryf ym mhwysigrwydd y gwaith o ddatblygu dinasyddion Cymraeg



a Chymreig. Mae'n dod i Benweddig ar ôl cyfnodau fel dirprwy bennaeth mewn dwy ysgol lwyddiannus, sef Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf ac Ysgol Uwchradd Aberteifi. Yn ei waith ym Mhenweddig bydd yn canolbwyntio ar fagu uchelgais ym mhob disgybl a'u cefnogi i ddatblygu'r medrau a rhinweddau i wireddu eu dyheadau. Yn ol Dr Thomas, 'Dyna'r fraint o fod yn athro - rydyn ni'n gweithio i helpu disgyblion i wireddu eu breuddwydion.' Dymunwn yn dda iddo yn ei rôl newydd ym Mhenweddig.

Peter Lord, Cadeirydd y Corff Llywodraethol.

## Colofn Ben Lake ac Elin Jones

**Blwyddyn ddiwylliannol newydd dda i chi gyd!**

Er gwaethaf amgylchiadau anodd a heriol y misoedd diwethaf, gobeithio eich bod chi wedi cael cyfle i fwynhau gwyliau'r haf, wedi treulio amser gyda theulu a ffrindiau, ac wedi gallu crwydro a mwynhau'r hyn sydd gan Geredigion ei gynnig unwaith eto.

Ry'n ni'n gwybod bod cadw cysylltiad gyda phobl wedi bod yn gwbl hanfodol dros y misoedd diwethaf, a gyda chynifer o bobl wedi gorfod addasu i weithio a dysgu o adre, mae'r galw am gysylltiad band eang cyflym a dibynadwy yn fwy amlwg nag erioed.

O gyfarfodydd Zoom i wylio cyfresi Netflix; o gynnal cwisiau rhithiol i wneud gwaith cartref arlein – mae band eang cyflym a dibynadwy wedi chwarae rhan allweddol yn ein bywydau bob dydd. Mae'r we hefyd wedi chwarae rhan bwysig wrth helpu i frwydro yn erbyn unigrwydd ac iselder yn ystod y cyfnod clo.

Yn anffodus, mae nifer fawr o gartrefi yn parhau i ddioddef cysylltiad band eang araf ac annibynadwy, ac mae'r argyfwng diweddar wedi amlygu pa mor ddiffygiol ac



annerbyniol yw'r sefyllfa yng Ngheredigion ar hyn o bryd.

Ry'n ni wedi cael nifer o gyfarfodydd gydag Openreach, BT ac Ofcom dros y cyfnod clo ac yn parhau i bwyso ar Lywodraeth Cymru a San Steffan i weithredu ar fyrder er mwyn gwella'r sefyllfa. Yn sgil hynny, roeddem yn falch iawn i glywed y cyhoeddiad diweddar bod Ceredigion wedi cael ei dewis i gymryd rhan mewn cynllun peilot band eang newydd.

Golyga hyn bod pob cartref a busnes yng Ngheredigion, sydd â chyflymder band eang llai na 30 Mbps, yn gymwys am grant trwy'r Gronfa Uwchraddio Band Eang. Yn ogystal â hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd yn ychwanegu at werth y grant, sy'n golygu y gallai cartrefi hawlio hyd at £3,000 o grant, gyda busnesau yn medru hawlio hyd at £7,000. Bydd y cyllid sydd ar gael yn rhoi grant i breswylwyr a busnesau tuag at y gost o osod band eang yn ei heiddo.

Beth sydd angen i chi wneud nesaf?

Rydym yn annog pob etholwr sydd â chyflymder o lai na 30Mbps i gofrestru eu diddordeb drwy'r ddolen ganlynol: https://broadband-upgrade-fund.campaign.gov.uk. Y dyddiad cau i gofrestru yw 30 Medi 2020.

Ni fydd cofrestru yn gwarantu y byddwch yn cael cysylltiad band eang cyflym yn eich eiddo - ond po fwyaf o bobl sy'n cofrestru, y mwyaf tebygol y bydd cyflenwr masnachol yn cydnabod y galw ac yn manteisio ar y cyfle i gysylltu clwstwr o gartrefi mewn ardal benodol.

Os ydych chi eisiau cysylltu â ni am y cynllun hwn, neu am unrhyw fater arall, mae croeso i chi gysylltu â ni: elin.jones@senedd.cymru / ben.lake.mp@parliament.uk

# Tasg y Tincer

Gobeithio eich bod wedi cael gwyliau haf gwerth chweil, ac wedi cael mentro i rywle newydd, a gweld aelodau o'r teulu a'ch ffrindiau. Hen dro na fuodd yna Eisteddfod yn Nhregaron, ond a fuoch chi'n dilyn digwyddiadau'r Eisteddfod Amgen ar y we, ar S4C a Radio Cymru? Wnes i fwynhau'r cyfan!

Ganol mis Medi ry'n ni'n dathlu diwrnod arbennig iawn – Diwrnod Owain Glyndŵr. Yn ôl y sôn, ar **16 Medi** yn y flwyddyn **1400** (union 620 o flynyddoedd yn ôl) y cyhoeddwyd mai Glyndŵr oedd Tywysog Cymru. Roedd yn arweinydd dewr ac yn llawn cynlluniau mentrus. Edrychwch am ei hanes ar Wicipedia, ac mae digon o lyfrau'n sôn amdano. Tipyn o arwr! Roedd am weld Cymru ar y brig, ac mae rhai yn credu bod ei ysbryd yn fyw o hyd ... Tybed a oes rhai o ddarllenwyr y Dasg yn dathlu pen-blwydd ar Ddiwrnod Owain Glyndŵr?!

Y mis hwn beth am liwio llun y castell crand? Roedd castell Glyndŵr yn Sycharth, ger Llansilin ym Mhowys. Un mwnt a beili oedd hwnnw, ac mae'r olion i'w gweld o hyd. Tynnwch ffoto o'ch llun, a'i anfon drwy ebost ata i (anwenmai@hotmail.co.uk), neu argraffwch y dudalen wedi'i lliwio a'i phostio at y cyfeiriad arferol, Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn Hydref 1af. Pob hwyl i chi yn ôl yn yr ysgol! Ta ta tan toc.

CYMRAEG
Ariennir yn Rhannol gan
Lywodraeth Cymru




**Enw**

**Cyfeiriad**

**Ysgol**

**Rhif ffôn** **Oed**

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M.
NOSWEITHIAU IAU A GWENER
AM BRYDIAU TEULUOL

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

JONATHAN LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
LLWYNDAFYDD,
CAPEL BANGOR
ABERYSTWYTH

ISSN 0963-925X
9 770963 925009 >
*Rhif 431 | Medi 2020*